# CDLl2 Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## 2018 - 2033

## Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol

## Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir

## 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **1** |
| **Ymgynghoriad** | **9** |
| **Methodoleg yr Arfarniad** | **11** |
| **Cyd-destun, Gwaelodlin ac Amcanion Cynaliadwyedd** | **19** |
| **Arfarniad o Gynaliadwyedd Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun** | **31** |
| **Arfarniad o Gynaliadwyedd Polisïau Strategol a Ffefrir y Cynllun** | **46** |
| **Strategaeth Aneddiadau** | **59** |
| **Gwerthuso Ansicrwydd a Risgiau Polisïau Strategol a Ffefrir y CDLl** | **70** |
| **Gweithredu/Monitro** | **82** |
| **Y Camau Nesaf** | **84** |

# Rhestr o Dalfyriadau

| | |
|---|---|
| **AA** | Asesiad Priodol |
| **ADSL** | Llinell Danysgrifio Ddigidol Anghymesur |
| **AMR** | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| **AHNE** | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| **AQMA** | Asesiad Rheoli Ansawdd Aer |
| **ASS** | Rhestr Safleoedd a Neilltuwyd |
| **BAP** | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| **BGS** | Arolwg Daearegol Prydain |
| **BME** | Du a Lleiafrifoedd Ethnig |
| **BPEO** | Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau |
| **BREEAM** | Dulliau Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Prydain |
| **BRMA** | Ardal Marchnad Rentu Eang |
| **CO2** | Carbon Deuocsid |
| **C2020** | Ceredigion 2020 |
| **CAMS** | Strategaeth Rheoli Ardal Dalgylch |
| **CCC** | Cyngor Sir Ceredigion |
| **CCGC** | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| **CE** | Prif Weithredwr |
| **CD&E** | Adeiladu, Dymchwel a Chloddio |
| **CFSH** | Cod Cartrefi Cynaliawy |
| **CHD** | Clefyd Coronaidd y Galon |
| **CIA** | Asesiad Effaith ar y Gymuned |
| **CROW** | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy |
| **cSAC** | ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig |

| | |
|---|---|
| **CYPP** | Cynllun Pobl Ifanc Ceredigion |
| **DCWW** | Dŵr Cymru Welsh Water |
| **DDA** | Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd |
| **DECS** | Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol |
| **DEFRA** | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| **DESH** | Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai |
| **DF** | Yr Adran Gyllid |
| **DHPW** | Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith |
| **DLHE** | Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch |
| **DMIPPS** | Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (Drafft) |
| **DSS** | Adran Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **DTI** | Adran Masnach a Diwydiant |
| **EA** | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| **EAW** | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| **EAFRD** | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| **EIA** | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| **EASR** | Cyfraddau Safonol Oedran Ewropeaidd |
| **CE** | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| **EES** | Strategaeth Cyflogaeth Ewropeaidd |
| **EIA** | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| **EQS** | Safon Ansawdd Ewropeaidd |
| **UE** | Undeb Ewropeaidd |
| **FCA** | Asesiad o Effaith Llifogydd |
| **FTE** | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| **GCR** | Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol |

| | |
|---|---|
| **GDP** | Cynnyrch Domestig Gros |
| **GIS** | Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol |
| **GQA** | Asesiad Ansawdd Cyffredinol |
| **GVA** | Gwerth Ychwanegol Gros |
| **Ha** | Hectarau |
| **HAP** | Cynllun Gweithredu Cynefin |
| **CIC** | Comisiwn Iechyd Cymru |
| **AU** | Addysg Uwch |
| **HEES** | Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref |
| **HHSRS** | System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai |
| **HIA** | Asesiad o’r Effaith ar Iechyd |
| **EM** | Ei Mawrhydi |
| **HMO** | Tŷ Amlfeddiannaeth |
| **HRA** | Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd |
| **IBERS** | Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig |
| **ICC** | Canolfannau Plant Integredig |
| **ICOMOS** | Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd |
| **ICR** | Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol |
| **TGCh** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu |
| **IDO** | Gorchmynion Datblygu Interim |
| **IHD** | Clefyd Isgemia’r Galon |
| **IPCC** | Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd |
| **ISAR** | Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol |
| **JHLA** | Argaeledd Tir ar gyfer Tai |
| **JNCC** | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |

| | |
|---|---|
| **JREC** | Clymblaid Ynni Adnewyddadwy Johannesburg |
| **KI** | Prif Faterion |
| **KSG** | Prif Grŵp Rhanddeiliaid |
| **KSI** | Lladdwyd neu Anafwyd yn Ddifrifol |
| **ALI** | Awdurdod Lleol |
| **LBAP** | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol |
| **LDA** | Asiantaeth Datblygu Leol |
| **CDLI** | Cynllun Datblygu Lleol |
| **LDPW** | Cynllun Datblygu Lleol Cymru |
| **LGAP** | Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol |
| **LHMA** | Asesiad Marchnad Tai Lleol |
| **LHS** | Strategaeth Dai Leol |
| **LLTI** | Salwch Cyfyngus Hirdymor |
| **LNR** | Gwarchodfa Natur Leol |
| **LPA** | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| **LS** | Anheddau Cysylltiedig |
| **MMO** | Y Sefydliad Rheoli Morol |
| **MPPW** | Polisi Cynllunio Mwynau Cymru |
| **MTAN** | Nodyn Cyngor Technegol Mwynau |
| **MW** | Mega Watt |
| **NCN** | Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol |
| **NH3** | Amonia |
| **NAQS** | Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol |
| **NHS** | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **GNG** | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| **NO2** | Nitrogen Deucosid |
| **NOx** | Nitrogen Ocsid |
| **NPA** | Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| **NTS** | Crynodeb Annhechnegol |
| **ODPM** | Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog |
| **ONS** | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **ORS** | Opinion Research Services |
| **CYBLD** | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| **PM10** | Gronynnau llai na 10 micro metr mewn diameter |
| **PPM** | Rhannau fesul Miliwn |
| **PPP** | Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni |
| **PPW** | Polisi Cynllunio Cymru |
| **PSB** | Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus |
| **RAWP** | Gweithgor Agregau Rhanbarthol |
| **RBMP** | Cynllun Rheoli Basn Afon |
| **RIGS** | Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol |
| **ROMP** | Adolygiad o Hen Ganiatâd Mwynau |
| **RQO** | Amcan Ansawdd Afonydd |
| **RRAA** | Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol |
| **RSC** | Canolfan Gwasanaethau Gwledig |
| **RSL** | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig |
| **RTP** | Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol |
| **RTPI** | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| **RTS** | Datganiad Technegol Rhanbarthol |
| **RWP** | Cynllun Gwastraff Rhanbarthol |

| | |
|---|---|
| **SA** | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| **SAC** | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **SAR** | Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd |
| **SEA** | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| **AAA** | Anghenion Addysgol Arbennig |
| **SINC** | Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur |
| **SLA** | Ardal Tirwedd Arbennig |
| **SME** | Busnes Bach a Chanolig |
| **SO2** | Sylffwr Deucosid |
| **AGA** | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| **SPZ** | Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr |
| **SPG** | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| **SRA** | Ardal Adfywio Strategol |
| **SSA** | Ardal Chwilio Strategol |
| **SoDdGA** | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| **STEAM** | Model Asesu Economaidd Twristiaeth Scarborough |
| **SDC** | System Draenio Cynaliadwy |
| **SWRAWP** | Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru |
| **SWG** | Gweithgor Cynaliadwyedd |
| **TAN** | Nodyn Cyngor Technegol |
| **TGA** | Ardal Twf Twristiaeth |
| **TPO** | Gorchymyn Diogelu Coed |
| **Trac** | Trafnidiaeth Canolbarth Cymru |
| **TWH** | Awr Terra Watt |
| **UDP** | Cynllun Datblygu Unedol |

| | |
|---|---|
| **UKCIP** | Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU |
| **UNESCO** | Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig |
| **USC** | Canolfan Gwasanaethau Trefol |
| **UA** | Prifysgol Aberystwyth |
| **UWTD** | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| **WAG** | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| **W&CA** | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad |
| **WCED** | Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygiad |
| **WDA** | Awdurdod Datblygu Cymru |
| **WHQS** | Safonau Ansawdd Tai Cymru |
| **WISE** | Sefydliad Cymru ar gyfer Datblygu Cynaliadwy |
| **WSP** | Cynllun Gofodol Cymru |

Crynodeb

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae’r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn yn ffurfio rhan o ddogfennau cynigion strategaeth a ffefrir y Cyngor ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) Ceredigion a’i ddyletswydd i wneud arfarniad o gynaliadwyedd o’r cynllun (yn ymgorffori asesiad amgylcheddol strategol).

1.1.2 Daeth adroddiad yr adolygiad i’r casgliad bod llawer o’r CDLl yn ateb y diben, a bod llawer o bolisïau a’r hierarchaeth anheddau dros gyfnod CDLl 1 wedi bod yn ddefnyddiol, a chadarn. Yr hyn oedd angen ei newid oedd cydnabod y newidiadau i bolisi cenedlaethol a materion ynghylch datblygu yn y llefydd cywir. Arweiniodd hyn at baratoi papurau pwnc ar amrywiaeth o themâu allweddol a amlygwyd yn adroddiad yr adolygiad. Dangosodd y papurau pwnc y sylfaen dystiolaeth a’r newidiadau mewn polisi lleol a chenedlaethol a arweiniodd at yr angen i gyflwyno newidiadau i’r cynllun. Mae’r papurau pwnc wedi cynnig amrywiaeth o newidiadau mawr, bach a dim newidiadau o gwbl i strategaeth a pholisïau CDLl 2 gyda mwyafrif y polisïau a’r hierarchaeth yn cael eu cario ymlaen - gan fynd i’r afael â dim ond y materion a ddangoswyd fel rhai sy’n methu gan yr Adroddiad Monitro Blynyddol ac adroddiad yr Adolygiad.

1.1.3 Felly, gan fod llawer o brif faterion, amcanion, strategaeth, hierarchaeth a pholisïau cyfredol y CDLl wedi’u hasesu o dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (Cyngor Sir Ceredigion) nid yw’r Arfarniad/Asesiad yn cynnig ailedrych ar y penderfyniadau a weithredwyd eisoes ac a welwyd oedd yn atal, lleihau a gwrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd i’r graddau mwyaf posibl, sy’n cael eu dwyn ymlaen i CDLl2, gan fod cyd-destun a goblygiadau cynaliadwyedd y penderfyniadau hyn wedi newid.

1.1.4 Fodd bynnag, pan fo CDLl2 yn cynnig gwneud newidiadau o CDLl1, bydd yr Arfarniad/Asesiad yn adolygu pob un o’r rhain. Yn dilyn ymgynghoriad

cychwynnol, mae CDLl2 yn cynnig gwneud newidiadau i'r weledigaeth, amcan CDLl (rhif 4) a newidiadau i'r polisïau strategol canlynol - S01, S02, S03, S04, S05 a chreu 1 Polisi Strategol newydd - polisi Cymraeg strategol, S06.

1.1.5 Bydd manylion y newidiadau hyn yn cael eu hystyried yn fanylach ond yn gryno, mae'r prif newidiadau i bolisïau'r strategaeth yn cynnig symud i ffwrdd o rai datblygiadau tai marchnad agored cyfyngedig ar draws yr holl aneddiadau cysylltiedig i ddull tai marchnad agored wedi'i dargedu a fydd ond yn dderbyniol mewn aneddiadau sydd â llwybrau teithio gweithredol a/neu fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus reolaidd (wedi'u diffinio fel rhai sy'n rhedeg yn ystod oriau gwaith arferol gydag amser teithio o lai na 30 munud i Ganolfan Gwasanaethau Trefol). Mae'r rhain wedi'u dosbarthu fel Aneddiadau Cysylltiedig Mawr ac Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy yn dibynnu ar hygyrchedd a maint. Y tu allan i'r aneddiadau hyn caniateir datblygu yn unol â pholisi cenedlaethol yn unig. Y canlyniad fydd canolbwyntio twf newydd yng Ngheredigion mewn ardaloedd sy'n bodloni disgwyliadau canlyniadau creu lleoedd, fel y nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 yn llawn.

1.1.6 Yn 2019, cyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Cwmpasu (Cyngor Sir Ceredigion 2019). Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys adolygiad polisi, gwerthusiad o'r ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a oedd yn effeithio ar Geredigion a set o amcanion (y fframwaith arfarnu). Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o'r Adroddiad Cwmpasu ac mae'n dogfennu'r arfarniad o Adroddiad Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol.

1.1.7 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud ei arfarniad o gynaliadwyedd ei hun o'r CDLl. Er mwyn hyrwyddo'r arfarniad fe gynhaliwyd nifer o weithdai rhwng swyddogion y Cyngor a Chyfarfodydd y Gweithgor Cynaliadwyedd. Cynhaliwyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 1.2 Cynllun Datblygu Lleol

1.2.1 Mae proses y CDLl wedi cael ei chynllunio er mwyn helpu i gyflawni datblygu cynaliadwy, sy'n un o nodau polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r CDLl yn gynllun statudol. Bydd yn pennu polisïau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Sir am oddeutu 15 mlynedd; hyd at 2033. Dechreuwyd gweithio ar CDLl newydd Ceredigion yn 2011. Cafodd Cytundeb Cyflenwi CDLl Ceredigion ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 22 Mehefin 2018, ac mae'n rhoi disgrifiad manwl o'r ffordd y bydd y CDLl yn cael ei brosesu yng Ngheredigion. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor: Cyngor Sir Ceredigion

1.2.2 Mae Ffigurau 1.1 ac 1.2 yn rhestru'r prif gamau yn y broses o lunio'r CDLl yn ogystal ag amserlen y gwaith yng Ngheredigion. Mae'r prosesau wedi eu rhannu yn 'Gamau Diffiniol', sydd o dan reolaeth y Cyngor a 'Chamau Dangosol'. Mae'n bosibl y bydd y camau dangosol yn newid oherwydd gofynion y broses ei hun; er enghraifft, gofynion yr Archwiliad Annibynnol.

Adroddiad yr Adolygiad a'r Cytundeb Cyflenwi

↓

Cynnal ac adolygu sylfaen dystiolaeth

↓

Nodi a phrofi opsiynau strategol

↓

Ymgynghori Cyhoeddus Cyn-Adneuo (yn cynnwys cymryd rhan yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol)

↓

Adneuo'r Cynigion yn Statudol (yn cynnwys Arfarniad/Asesiad)

↓

Monitro ac Adolygu

Camau Diffiniol

---

Cwblhau Adroddiad Ymgynghori

↓

Cyflwyno CDLl i Archwiliad

↓

Archwiliad Annibynnol

↓

Adroddiad Rhwymol yr Arolygydd

↓

Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd

↓

Mabwysiadu CDLl Diwygiedig (Datganiad Mabwysiadu CDLl)

Adroddiad Monitro Blynyddol

Camau Dangosol

**Ffigur 1.1. Mae amlinelliad o baratoi Cynllun newydd wedi'i nodi yn y siart lif isod:**

| Cam Paratoi'r Cynllun | | Amserlen Derfynol |
|---|---|---|
| 1 | Y Cyngor yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 9)<br>Y Cabinet yn cytuno ar ddiwygiadau i'r amserlen | Ionawr 2018<br><br>Mai 2018 |
| | Cyflwyno | Mehefin 2018 |
| 2 | Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y Cytundeb Cyflenwi | 22 Mehefin 2018 |
| 3 | Cyfranogiad Cyn-adneuo:<br>Cyfranogi gyda Chyrff Penodol a Chyffredinol yr Ymgynghoriad ar gyfer creu strategaethau ac opsiynau eraill (Rheoliad 14) | Mehefin 2018 – Mai 2019 |
| 4 | Galwad am safleoedd ymgeisiol | Mehefin – Medi 2018 |
| 5 | Ymgynghoriad cyhoeddus cyn-adneuo – 6 wythnos o ymgynghoriad cyhoeddus (Rheoliad 15) | Mehefin – Gorffennaf 2019 |
| 6 | Asesu sylwadau a dderbyniwyd a pharatoi dogfennau adneuo | Gorffennaf 2019 – Ebrill 2020 |
| 7 | Adneuo'r CDLl a dogfennau cysylltiedig (Rheoliad 17) | Mai – Mehefin 2020 |
| **Amserlen Ddangosol** | | |
| | Asesu sylwadau a dderbyniwyd a pharatoi dogfennau i'w cyflwyno | Mehefin – Rhagfyr 2020 |
| | Cyflwyno'r CDLl i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 20) | Rhagfyr 2020 |
| | Archwilio'r CDLl (Rheoliad 23) | Ionawr – Medi 2021 |
| | Derbyn argymhellion yr Arolygydd (Rheoliad 24) | Hydref 2021 |
| | Y Cyngor yn mabwysiadu'r CDLl o fewn 8 wythnos i dderbyn argymhellion yr Arolygydd (Rheoliad 25) [Disodli'r CDLl blaenorol yn awtomatig (rheoliad 2(19))] | Tachwedd – Rhagfyr 2021 |

**Ffigur 1.2: Camau allweddol ym mhroses baratoi'r CDLl**

1.2.3 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn un o ddogfennau Strategaeth a Ffefrir y CDLl. Mae'n gosod y Weledigaeth, yr Amcanion, y Polisïau Strategol a'r Safleoedd Strategol (nad ydym wedi cynnig rhai) ar gyfer y CDLl, a ddatblygir yn ddiweddarach yn bolisïau manwl yn fersiwn Adneuo'r Cynllun. Bydd yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol hwn yn asesu effeithiau tebygol Strategaeth a Ffefrir y CDLl.

## 1.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.3.1 Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel: "y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant." Mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn datgan 'bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'(Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) Mae'n nodi'r pum dull o weithio – Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys, Cydweithio ac Atal – sydd eu hangen ar Gyrff Cyhoeddus i gyflawni'r saith nod llesiant. Mae Adran 39 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (Llywodraeth EM 2004) yn mynnu bod rhaid i'r corff sy'n cynhyrchu CDLl (Cyngor Sir Ceredigion) gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

1.3.2 Diben yr arfarniad o gynaliadwyedd yw canfod beth fydd effeithiau pwysig tebygol y cynllun o safbwynt ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Trwy ddangos pa effeithiau tebygol a fydd yn gynaliadwy gellir gweithredu camau i liniaru a lleihau effeithiau negyddol ac ychwanegu at y camau cadarnhaol.

1.3.3 Bydd arfarniad o gynaliadwyedd yn helpu i feithrin proses fwy cynhwysol a thryloyw o lunio CDLl newydd. Pan gynigir newidiadau o CDLl1 a CDLl2 bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn adolygu pob un o'r rhain.

1.3.4 Bydd arfarniad o gynaliadwyedd yn helpu i sicrhau bod y CDLl wedi'i integreiddio gyda pholisïau eraill. Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cynnwys adolygiad polisi (gweler Adran 3 yr Adroddiad Cwmpasu) sy'n dangos nodau'r dogfennau a'r ffordd y gall y CDLl helpu i gyflawni'r nodau hynny. Bu nifer o wahanol bartneriaid yn gysylltiedig â'r dasg o arfarnu'r cynllun (o fewn y Cyngor ac yn allanol) ac mae hynny wedi sicrhau mwy o gyfranogiad gan randdeiliaid.

1.3.5 Yng nghyd-destun CDLlau, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y gofyniad am Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei gyflawni fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd ehangach a fydd yn cynnwys ystyriaethau economaidd a chymdeithasol. Gan hynny, mae Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael ei gynnwys yn y broses o ddatblygu'r CDLl.

**1.4 Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol**

1.4.1 Y ddogfen hon yw'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ar gyfer Strategaeth a Ffefrir CDLl2 (2018-2033). Mae'n amlinellu sut y mae gofynion statudol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei hintegreiddio trwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLl, fel bod goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y polisïau a'r cynigion yn cael eu nodi'n glir er mwyn sicrhau bod y CDLl yn cael ei seilio ar egwyddorion cynaliadwyedd cadarn. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r holl waith arfarnu a wnaethpwyd hyd yma.

1.4.2 Ochr yn ochr â phroses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylchedd Strategol bydd yn rhaid cynnal asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o effeithiau arwyddocaol tebygol y CDLl ar safleoedd Natura 2000 o Werth Cadwraethol, sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae gan Geredigion 12 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn cynnwys 4 y tu allan i'r ardal a allai gael eu heffeithio gan y cynllun, 1 ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig, 3 Ardal Warchodaeth

Arbennig, 2 safle Ramsar, dros 101 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 6 Gwarchodfa Natur Genedlaethol ac unig Fiosffer Cymru, wedi'i dynodi gan UNESCO (Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig). Mae'r asesiad yn ofynnol o dan Erthygl 6(3) o'r Cyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC0 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae 'Adroddiad Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y CDLl ar gael ar wahân.

1.4.3 Yn sgil Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, mae'n ofyniad i gyrff cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i asesu effeithiau sylweddol tebygol y CDLl arfaethedig ar iechyd, lles meddyliol ac anghydraddoldeb. Cynhelir yr asesiad hwn gyda chymorth Gweithdy Asesu Effaith Iechyd Cyflym, a bydd ar gael fel dogfen ar wahân.

1.4.4 Mae Crynodeb Annhechnegol yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol wedi ei lunio i ddangos beth fydd effeithiau sylweddol tebygol y cynllun, yn ogystal â throsolwg o'r broses hyd yma, yn nodi sut mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi dylanwadu ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl. Mae'r ddogfen hon ar gael ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Ymgynghoriad

## 1.5 Cyfarfodydd y Gweithgor Cynaliadwyedd.

1.5.1 Cynhaliwyd cyfarfodydd y Gweithgor Cynaliadwyedd er mwyn darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer cynhyrchu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.5.2 Amcanion y cyfarfodydd oedd:

i. cynorthwyo i ddatblygu methodoleg ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol;
ii. cynorthwyo i ganfod problemau a chyfleoedd ym maes cynaliadwyedd (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, llywodraethu da a defnyddio gwyddoniaeth yn gyfrifol) ac amgylcheddol;
iii. cynorthwyo i ddynodi a meintioli amcanion cynaliadwyedd a dangosyddion monitro;
iv. darparu canllawiau ar asesu'r CDLl newydd mewn perthynas ag amcanion a dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.5.3 Trefnwyd mynychwyr y cyfarfodydd mewn modd a oedd yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng cyfraniadau sy'n adlewyrchu saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r pum dull o weithio i gyflawni'r nodau hyn. Mae rhestr o'r sefydliadau a gafodd wahoddiad i'r cyfarfodydd yn Atodiad 5

## 1.6 Ymgynghoriad Cwmpasu

1.6.1 Mae gofyniad statudol i'r Cyngor ymgynghori ar wahanol gyfnodau o'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. O dan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cymru, mae'n rhaid ymgynghori gyda dau gorff ymgynghori statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) ynglŷn â chwmpas a lefel manylion y wybodaeth sydd i gael ei chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol. Anfonwyd yr Adroddiad Cwmpasu at y cyrff ymgynghori yn unol â'r gofynion ymgynghori yn y cam

hwn o’r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Rhoddwyd cyfle hefyd i adrannau eraill o’r Cyngor Sir roi eu sylwadau.  Er mwyn gwneud y broses mor gynhwysol â phosibl, rhoddwyd cyfle cyfartal i’r cyhoedd wneud sylwadau ynglŷn â’r ddogfen gwmpasu. Yn unol â Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Cymru ar gyfer Cymru, gosodwyd cyfnod ymgynghori o bum wythnos ar gyfer y cyfnod cwmpasu.

1.6.2 Mae’r sylwadau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â’r Adroddiad Cwmpasu wedi cael eu bwydo i gamau nesaf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.6.3 Yn ychwanegol at yr ymgynghori gorfodol, bu ymgynghoriad anffurfiol parhaus gyda’r cyrff ymgynghori wrth baratoi’r Adroddiad Cwmpasu.

**1.7 Ymgynghoriad yr Adroddiad Cychwynnol Arfarniad o Gynaliadwyedd**

1.7.1 Bydd chwe wythnos o gyfnod ymgynghori ar yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol (yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru). Ymgynghorir gyda’r ddau gorff ymgynghori statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw), rhanddeiliaid eraill a’r cyhoedd. Gan ei fod yn ddichonadwy y bydd y CDLl yn cael effaith amgylcheddol ar siroedd cyfagos, bydd ymgynghori gyda’r Awdurdodau Lleol priodol hefyd. Bydd adrannau eraill o’r cyngor yn cael eu gwahodd i wneud sylwadau ar y ddogfen.

1.7.2 Pan fydd y CDLl newydd yn cael ei fabwysiadu, bydd datganiad ar gael i bawb yr ymgynghorwyd â hwy, yn nodi sut y rhoddwyd ystyriaeth i ganfyddiadau’r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ac i’r sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â’r adroddiad hwnnw yn sgil yr ymgynghori.

## Methodoleg yr Arfarniad

### Gofynion Deddfwriaethol

### 1.8 Gofynion ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.8.1 Mae Adrannau 19(5), 39 a 62(6) o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Llywodraeth y DU, 2004) yn mynnu bod y Cyngor yn gwneud arfarniad o gynaliadwyedd y CDLl ac yn paratoi adroddiad o'r canfyddiadau fel rhan hanfodol o'r broses o baratoi'r cynllun. Diffinnir arfarniad o gynaliadwyedd fel: "proses systematig ac ailadroddus a ddilynir wrth baratoi (ac adolygu) Cynllun Datblygu Lleol. Ei rôl yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy drwy asesu i ba raddau mae'r cynllun arfaethedig yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol wrth ei farnu yn erbyn dewisiadau rhesymol eraill.

1.8.2 Diben yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw gwerthuso effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd strategaeth, polisïau a chynigion y CDLl o gychwyniad cyntaf y broses, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd Arfarniad o Gynaliadwyedd yn chwarae rhan bwysig mewn dangos bod y CDLl yn gadarn trwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy ac yn cyfrannu at gyfiawnhad rhesymedig polisïau.

### 1.9 Y Gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.9.1 Mae'n rhaid cynnal asesiad amgylcheddol o CDLl diwygiedig / newydd (Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol 5(2) a 5(4). Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mai'r ffordd orau o gynnwys rheoliadau'r Asesiad ar gyfer cynlluniau datblygu yw eu cynnwys mewn Arfarniad o Gynaliadwyedd. (Canllaw Ymarferol i Gyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005. Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.)

1.9.2 Amcan Cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw: '*to provide for a high level of protection of the environment and to contribute to the*

*integration of environmental considerations into the preparation and adoptions of plans … with a view to promoting sustainable development, by ensuring that, in accordance with this Directive, an environmental assessment is carried out of certain plans …which are likely to have significant effects on the environment'.* (Erthygl 1, 2001/42/EC).

1.9.3 Cefnogir y gyfarwyddeb hon gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Llywodraeth Cymru 2004) lle mae Atodlen 2 o'r Rheoliadau yn mynnu bod y Cyngor yn asesu effeithiau sylweddol tebygol ei gynlluniau a'i raglenni ar: "*the environment, including on issues such as biodiversity, population, human health, fauna, flora, soil, water, air, climatic factors, material assets, cultural heritage including architectural and archaeological heritage, landscape and the interrelationship of the above factors including scale, short, medium, and long-term, permanent and temporary positive and negative effects*".(Cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol 2001/42/EC Atodiad 1 (f)).

1.9.4 Bydd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn sicrhau bod y CDLl yn dynodi ac yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol sy'n codi o'r cynigion; gan gynnwys unrhyw ddewisiadau amgen ac yn sicrhau y bydd yn cynnig mesurau i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol. Bydd yn rhaid monitro unrhyw effeithiau sylweddol unwaith y bydd y CDLl yn weithredol. Wrth ragweld effeithiau, dylid ystyried y canlynol hefyd:

- **Maint** effeithiau'r cynllun, yn cynnwys i ba raddau mae'r cynllun yn gosod fframwaith ar gyfer prosiectau, i ba raddau mae'n dylanwadu ar gynlluniau eraill, a'r problemau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r cynllun.
- **Sensitifrwydd** yr amgylchedd sy'n derbyn, yn cynnwys gwerth yr ardal ac a yw'n agored i niwed, a yw wedi rhagori ar y safonau ansawdd amgylcheddol, ac effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau dynodedig.

- **Nodweddion effeithiau**, yn cynnwys tebygolrwydd, hyd, amlder, a ellir eu gwyrdroi, effeithiau cronnol, effeithiau trawsffiniol, risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd, a maint a graddau gofodol yr effeithiau.

1.9.5 Un o ofynion allweddol y rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yw bod Adroddiad Amgylcheddol yn cael ei baratoi a bod yr adroddiad hwnnw yn dynodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd:

- Gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen (y CDLl);
- Dewisiadau amgen rhesymol, gan gymryd i ystyriaeth amcanion a sgôp daearyddol y cynllun neu'r rhaglen

1.9.6 I bob pwrpas bydd y papur hwn yn gweithredu fel Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Adroddiad Amgylcheddol.

## 1.10 Matricsau Effaith

| Symbol | Effaith a Ragwelir | Gweithredu/ymateb a awgrymir |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad yn gymorth sylweddol i gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach. |
| + | Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn gymorth i gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach. |
| =/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r Amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill. | Ystyried lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio'r polisi neu ddyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |

| | | |
|---|---|---|
| - | Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn gwrthdaro â'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio'r polisi neu ddyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| -- | Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn gwrthdaro'n sylweddol â'r Amcan Cynaliadwyedd. | Mesurau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| I | Mae'r effaith ar yr Amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad. | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu. |
| ? | Effaith ansicr – angen mwy o wybodaeth | Ystyried o ble y daw hyn – gan bwy mae'r wybodaeth? Beth fydd yn cael ei wneud ynglŷn â'i chasglu? Pryd fydd yn cael ei chasglu? |

**Ffigur 3.1 Tabl – Meini Prawf Arfarniad o Gynaliadwyedd**


### 1.11 Cydymffurfio â'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.11.1 Cyflawnir y gofyniad statudol am Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol o CDLl Ceredigion yn yr Adroddiad Cwmpasu (Cyngor Sir Ceredigion 2019) a'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol. Mae'r ddau adroddiad wedi cael eu paratoi yn unol â'r canllawiau a bennir yn y:

- Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol, fersiwn 2 (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2015),

- Arfarniad o Gynaliadwyedd Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Dogfennau Datblygu Lleol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2005)
- Canllawiau Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog et al 2005)
- Asesiad Amgylchedd Strategol. Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Arfarniad/Asesiad ar gyfer cynlluniau defnydd tir. (Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, 2018)

1.11.2 Mae Ffigur 3.2 yn rhestru camau a thasgau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, sy'n seiliedig ar y rhai a restrir yng nghanllawiau Cynlluniad Cymru a'r DU.




**Ffigur 3.2. Prif gamau proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae cam Adroddiad yr Arfarniad wedi'i liwio'n llwyd**

**Cwmpas yr Arfarniad**

1.11.3 Mae'r meysydd pwnc sy'n cael eu hystyried yn Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion yn cwmpasu'r pynciau sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Ar ben hynny, mae pynciau eraill wedi cael eu hychwanegu er mwyn ymestyn cwmpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol o safbwynt cynaliadwyedd ac er mwyn sicrhau mwy o gysondeb â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac a fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru yn 2020 yn ogystal â sicrhau bod pynciau sy'n arbennig o berthnasol i Geredigion wedi cael ystyriaeth lawn. Mae Ffigur 3.3 yn dangos cwmpas y meysydd pwnc sydd angen sylw yn Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Cyngor Sir Ceredigion; ochr yn ochr â'r pynciau a restrir yn y rheoliadau. Hefyd, mae unrhyw berthynas rhwng meysydd pwnc yn cael eu hystyried o ran y pwnc perthnasol fel y mae'r cyfarwyddyd yn ei argymell.

| **Pwnc a restrir yn y Rheoliadau** | **Pynciau a gynhwysir yn Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion** | **Maes Cynaliadwyedd** |
|---|---|---|
| Ffactorau sy'n ymwneud â'r Hinsawdd | Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd | Amgylcheddol |
| Pridd<br>Aer<br>Dŵr | Pridd, Aer a Dŵr | |
| Asedau Materol | Asedau Materol<br>Gan gynnwys cyfleustodau, gwastraff a mwynau | |
| Bioamrywiaeth<br>Ffawna | Bioamrywiaeth<br>Gan gynnwys ffawna a fflora | |

| | | |
|---|---|---|
| Fflora | | |
| Tirwedd | Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol | |
| Treftadaeth | Gan gynnwys Treftadaeth Ddiwylliannol, Bensaernïol ac Archeolegol | |
| Poblogaeth | Poblogaeth a Thai | Cymdeithasol |
| Iechyd Pobl | Iechyd a Lles Pobl | |
| | Hamdden, Adloniant a Thwristiaeth | |
| | Addysg a Sgiliau | |
| | Y Gymraeg | |
| | Trafnidiaeth | Economaidd |
| | Cyflogaeth a'r Economi | |
| Rhyngberthynas | Rhoddir sylw i faterion trawsbynciol pwysig o dan bob pwnc unigol | Amherthnasol |

**Ffigur 3.3. Meysydd pwnc a ddewiswyd i'w cynnwys yn Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion a chymhariaeth â phynciau a restrwyd yn y Rheoliadau Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol**

1.11.4 Yn y cam Strategaeth a ffefrir hwn o baratoi CDLl newydd, mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Weledigaeth, Strategaeth a Ffefrir a Pholisïau Strategol. Gan hynny, dyma'r unig agweddau y gellir ymwneud â nhw yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol. Bydd y CDLl wedi'i adneuo yn rhoi mwy o sylw i'r ffordd a ymdrinnir â materion datblygu a chadwraeth. Bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd terfynol. Bydd hyn yn cynnwys meini prawf ar gyfer penderfynu pa mor gynaliadwy yw safleoedd datblygu.

## Cyd-destun, Gwaelodlin ac Amcanion Cynaliadwyedd

### Cynlluniau a Pholisïau Perthnasol/Cyd-destun Polisi

Beth mae'r canllawiau i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei ddweud...

> *A plan or programme may be influenced in various ways by other plans or programmes, or by external environmental protection objectives such as those laid down in policies or legislation. These relationships enable the Responsible Authority to take advantage of potential synergies and to deal with any inconsistencies and constraints.*
> (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005)

1.11.5 Gwnaethpwyd adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill yn yr adroddiad Cwmpasu er mwyn dod o hyd i unrhyw amcanion amgylcheddol neu Amcanion Cynaliadwyedd ehangach a allai osod cyfyngiadau neu sicrhau synergedd o fewn y CDLl. Roedd yr adolygiad o ddogfennau yn cynnwys:

- Deddfwriaeth, cytundebau a chytuniadau rhyngwladol y mae'r DU wedi eu llofnodi;
- Deddfwriaeth Ewropeaidd;
- Deddfwriaeth, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol (y DU a materion sy'n benodol i Gymru);
- Nodiadau Cyngor Technegol ar gyfer cynllunio yng Nghymru;
- Unrhyw adroddiadau, strategaethau a chanllawiau perthnasol eraill.

1.11.6 Mae rhestr gyfoes o'r holl gynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol a adolygwyd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cwmpasu, a'i diweddaru ymhellach ar gyfer yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol. Gwelir y rhestr yn Atodiad 2. Cyflwynwyd yr adolygiad bwnc wrth bwnc er mwyn ei gwneud hi'n haws gweld yr Amcanion Cynaliadwyedd sy'n berthnasol i bob pwnc. Ond nid yw pob un o'r dogfennau a adolygwyd yn

ffitio'n hwylus i unrhyw faes pwnc penodol, tra bod eraill yr un mor bwysig ar draws nifer o wahanol bynciau. Felly, dylid edrych ar y ffordd y rhennir yr holl gynlluniau, polisïau a rhaglenni rhwng gwahanol bynciau fel ymgais i sicrhau'r ffit gorau, yn hytrach na fel proses ddiffiniol o gategoreiddio.

## 1.12 Y Sylfaen Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd

Beth mae'r Canllawiau'n ei ddweud

*Baseline information provides the basis for predicting and monitoring environmental effects and helps to identify environmental problems and alternative ways of dealing with them. Both qualitative and quantitative information can be used for this purpose.*

*Identifying environmental problems is an opportunity to define key issues and improve the SEA objectives. Responsible Authorities will be aware of many environmental problems which they currently face. It is important however to look for any potential problems, on the basis of:*

- *i. Earlier experience with issues identified in other plans and programmes;*
- *ii. Identification of possible tensions with other plans, programmes and environmental protection objectives;*
- *iii. Identification of possible tensions between current or future baseline conditions and existing objectives, targets or obligations; and*
- *iv. Consultation with the Consultation Bodies and the public.*

*The identification of environmental problems must be based on evidence related to baseline information.*

(Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005)

1.12.1 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd yn wybodaeth ansoddol a meintiol a data sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir. Mae'r data hwn yn cynnwys y sir gyfan oherwydd gallai'r CDLl effeithio ar bob rhan o'r sir.

1.12.2 Mae dau ddiben i'r wybodaeth sylfaenol, mae'n helpu i ddynodi'r materion y dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ganolbwyntio arnynt, ac mae'n gosod meincnod ar gyfer asesu perfformiad y Cynllun (a chywirdeb unrhyw ragfynegiadau). Yn ogystal â dangos y sefyllfa bresennol mae'r data sylfaenol yn dangos lle bo modd, beth oedd y sefyllfa yn y gorffennol a beth yw'r amcanestyniadau at y dyfodol, er mwyn awgrymu tueddiadau. Mae'n bwysig sylweddoli, pan fo gwybodaeth ar dueddiadau gael, bod ymestyn hynny i'r dyfodol yn gallu newid mewn ymateb i newidiadau yn y ddeddf neu ymyriadau eraill.

1.12.3 Mae Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Cymru yn mynnu y dylai'r wybodaeth gael ei darparu ar "…yr agweddau perthnasol o gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol pe na bai'r cynllun neu'r rhaglen yn cael ei weithredu". Fe all fod yn anodd disgrifio esblygiad tebygol yr amgylchedd pe na bai'r cynllun yn cael ei weithredu (gelwir hyn yn aml yn 'heb y cynllun' neu sylfaen y dyfodol) gan nad oes data ar dueddiadau ar gael bob amser. Ond yn yr adroddiad hwn gwnaethpwyd ymdrech lle bynnag y bod modd i ddisgrifio sylfaen dyfodol pob un o bynciau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.12.4 Cyflwynir sylfaen amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar gyfer Ceredigion gan ddefnyddio'r dull papur pwnc a ddefnyddir yn yr Adroddiad Cwmpasu, ac mae'n ymgorffori newidiadau a gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd ers ymgynghori ynglŷn â'r adroddiad hwnnw. Fel y bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn symud ymlaen trwy asesu a monitro'r cynllun, bydd angen mireinio'r data sylfaenol a'r set o wybodaeth. Bydd yn rhaid dynodi neu gaffael data a gwybodaeth fwy meintiol a mwy manwl, sy'n berthnasol i'r Amcanion Cynaliadwyedd.

## 1.13 Y prif ystyriaethau a phroblemau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a ddynodwyd

1.13.1 Mae Atodiad 1 yn rhestru'r materion allweddol a fydd yn effeithio ar Geredigion a'r Amcanion Cynaliadwyedd a dangosyddion posibl a gynigir i ddelio gyda hwynt. Mae casglu tystiolaeth yn broses ailadroddus, a bydd atodiadau'n cael eu diweddaru fel y bo'n briodol.

## 1.14 Amcanion Cynaliadwyedd

Beth mae'r Canllawiau'n ei ddweud:

> *While not specifically required by the Directive, SEA objectives are a recognised way of considering the environmental effects of a plan or programme and comparing the effects of alternatives. They serve a different purpose from the objectives of the plan or programme, though they may in some cases overlap with them. SEA objectives are used to help show whether the objectives of the plan or programme are beneficial for the environment, to compare the environmental effects of alternatives, or to suggest improvements. For example, improving biodiversity may be an objective of both a plan or programme and an SEA, but the plan or programme may also have an objective of protecting specific wildlife sites which may be tested against the objective of whether they improve biodiversity.*
>
> *SEA objectives can often be derived from environmental objectives which are established in law, policy, or other plans or programmes, or from a review of baseline information and environmental problems. They can be used or adapted for SEAs of related plans and programmes, whereas each individual plan or programme has its own specific objectives.*
>
> (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005)

1.14.1 Defnyddiwyd y materion hyn a ddynodwyd er mwyn llunio Amcanion Cynaliadwyedd sy'n ffurfio Fframwaith Asesiad o Gynaliadwyedd. Defnyddiwyd y fframwaith hwn i farnu cynaliadwyedd amcanion a pholisïau strategol y Cynllun newydd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys fersiwn diweddaraf y fframwaith.

1.14.2 Yn Atodiad 1 gwelir y berthynas rhwng y materion cynaliadwyedd a ddynodwyd a'r Amcanion Cynaliadwyedd hefyd. Asesir cydnawsedd mewnol yr amcanion hefyd, yn ffigur 4.2.

1.14.3 Bwriad Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yw cwmpasu'r asedau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gallai'r cynllun neu raglen effeithio arnynt. Mae Amcanion yr Arfarniad/Asesiad a gynigir yma yn cynrychioli cwmpas yr asesiad a wneir i ganfod yr effeithiau posibl.

1.14.4 Diben yr amcanion hyn yw awgrymu cyfeiriadau newid yn hytrach na phwyntiau penodol i'w cyrraedd. Gan hynny ni osodir targedau. Nod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw cyflawni'r amcan yn llawn. Cyflwynir dangosyddion posibl ar gyfer yr Amcanion Cynaliadwyedd yn Atodiad 1 sy'n amlinellu'r cynigion i fonitro canlyniadau Cynaliadwyedd y Cynllun.

| **Rhif Amcan** | **Amcan Cynaliadwyedd** |
|---|---|
| 1a | Lleihau achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd (yn cynnwys Newid Arfordirol). |
| 1b | Sicrhau bod mesurau digonol ar gael i addasu i newid hinsawdd ac i liniaru'r effeithiau. |
| 1c | Lleihau'r perygl o lifogydd |
| 2a | Lleihau unrhyw halogiad a diogelu maint ac ansawdd y pridd a mawn. |
| 2b | Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion. |

| Rhif Amcan | Amcan Cynaliadwyedd |
|---|---|
| 2c | Lleihau effeithiau niweidiol y defnydd o dir ar faint ac ansawdd adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol. |
| 3a | Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. |
| 3b | Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel. |
| 4a | Gwerthfawrogi, diogelu a hybu bioamrywiaeth, yn cynnwys cysylltedd a chydnerthedd ecolegol i gyflawni potensial gwasanaethau ecosystem. |
| 5a | Deall, gwerthfawrogi, diogelu, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, natur unigryw'r ardal leol a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion. |
| 6a | Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg gyfnewidiol yn cael eu hadlewyrchu. |
| 6b | Galluogi datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynus. |
| 7a | Hybu a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. |
| 8a | Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac ecogyfeillgar, a chyfleusterau hamdden ac adloniant ecogyfeillgar yng Ngheredigion. |
| 9 | Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. |
| 10 | Diogelu a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| 11a | Lleihau'r angen i deithio a'i effaith i alluogi'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth fwy cynaliadwy a gweithredol. |
| 11b | Gwella mynediad at wasanaethau i gymunedau, a gwella cysylltedd er mwyn yr economi. |
| 12 | Annog economi fywiog ac amrywiol. |

## 1.15 Cydweddoldeb yr Amcanion

Yr hyn y mae'r Canllawiau'n ei ddweud:

> *The objectives of the plan or programme will need to be tested against the SEA objectives to identify both potential synergies and inconsistencies. This information may help in developing alternatives during the development of the plan or programme, and may in some cases help to refine the objectives of the plan or programme itself. Where a plan or programme has several objectives it may also be helpful to test them against each other, as inconsistencies may give rise to adverse environmental effects*.
>
> Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005)

1.15.1 Mae Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol a nodir yn Adran 4 wedi cael eu profi am gydweddoldeb yn unol â'r canllawiau fel uchod. Defnyddiwyd dull matrics sy'n gyson â'r canllawiau. (Appendix 5 A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive). Mae canlyniadau'r asesiad cydweddoldeb wedi'u crynhoi yn Ffigur 4.2.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1a. Lleihau achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd (yn cynnwys Newid Arfordirol). | | | | | | | | | |
| 1b.Sicrhau bod mesurau digonol ar gael i addasu i newid hinsawdd ac i liniaru'r effeithiau. | C | | | | | | | | |
| 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd. | C | C | | | | | | | |
| 2a. Lleihau unrhyw halogiad a diogelu maint ac ansawdd y pridd a mawn. | C | C | C | | | | | | |
| 2b. Cynnal a gwella yr aer ar draws Ceredigion. | C | C | - | C | | | | | |
| 2c. Lleihau effeithiau niweidiol y defnydd o dir ar faint ac ansawdd dŵr mewndirol ac arfordirol. | - | - | C | C | C | | | | |
| 3a. Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. | C | C | - | C | C | C | | | |
| 3b. Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel. | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | | |
| 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a hybu bioamrywiaeth yn cynnwys cysylltedd | C | C | C | C | C | C | C | ? | |

| | |
|---|---|
| C | Amcanion yn cydweddu |
| ? | Ansicrwydd am gydweddoldeb |
| N | Amcanion ddim yn cydweddu |
| - | Dim perthynas rhwng amcanion |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cydnerthedd ecolegol i gyflawni potensial gwasanaethau ecosystem. | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 5a. Deall, gwerthfawrogi, diogelu, gwella a dathlu tirwedd ac amgylchedd hanesyddol Ceredigion. | - | - | C | C | C | C | C | ? | C | | | | | | | |
| 6a. Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg gyfnewidiol yn cael eu hadlewyrchu. | - | - | - | - | - | - | - | - | C | C | | | | | | |
| 6b. Galluogi datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynus. | ? | ? | C | ? | ? | ? | ? | C | ? | - | C | | | | | |
| 7a. Hybu a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. | ? | ? | ? | C | C | C | ? | C | C | ? | ? | C | | | | |
| 8a. Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac ecogyfeillgar. | ? | ? | C | - | C | C | ? | C | C | C | ? | C | C | | | |
| 9a. Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. | - | - | - | - | - | - | - | C | - | - | ? | C | C | ? | | |
| 10a. Diogelu a gwella'r Gymraeg a diwylliant. | - | - | - | - | - | - | - | - | - | C | C | C | - | C | C | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11a. Lleihau'r angen i deithio a'i effaith i alluogi'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth fwy cynaliadwy a gweithredol. | C | C | C | - | C | - | C | ? | C | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | | | |
| 11b.Gwella mynediad at wasanaethau i gymunedau, a gwella cysylltedd er mwyn yr economi. | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | C | C | C | C | ? | | |
| 12.a. Annog economi fywiog ac amrywiol. | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | ? | ? | ? | C | ? | C | C | ? | ? | C | |
| | 1a | 1b | 1c | 2a | 2b | 2c | 3a | 3b | 4a | 5a | 6a | 6b | 7a | 8a | 9a | 10a | 11a | 11b | 12a |

**Ffigur 4.2 Asesiad Cydweddoldeb rhwng amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.**

1.15.2 Fel y gwelir o Ffigur 4.2 mae nifer fawr o Amcanion yr Arfarniad/Asesiad Amgylcheddol Strategol naill ai'n gydnaws â'i gilydd, neu heb berthynas â'i gilydd. Lle nad oes unrhyw berthynas rhwng yr amcanion fe ellir eu cyflawni ar yr un pryd heb iddynt wrthdaro â'i gilydd.

1.15.3 Ond mae ansicrwydd rhwng cydweddoldeb rhai amcanion posibilrwydd o greu gwrthdaro. Er enghraifft, fe allai'r amcanion ynglŷn â thwf a'r economi a thrafnidiaeth gael effaith niweidiol ar y pynciau amgylcheddol oni bai bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r ffordd o'u gweithredu. Fodd bynnag, mae amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u diwygio ychydig ar gyfer y CDLl newydd i sicrhau mwy o gydweddoldeb.

1.15.4 Gellir delio gydag unrhyw anghydweddoldeb yn amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol trwy:

- Ailddiffinio un neu'r ddau amcan er mwyn lleihau neu ddileu'r gwrthdaro;
- Ymchwilio i ystod o opsiynau a all gyflawni un o'r amcanion fel bod ei effaith ar yr amcanion eraill yn newid. Bydd y newid yn yr effaith yn cael ei asesu yng nghamau diweddarach yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol gan arwain at ddewis o opsiynau polisi a fydd yn lleihau'r gwrthdaro rhwng yr amcanion.

Nid oes unrhyw anghydweddoldebau rhwng amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion.

## Arfarniad o Gynaliadwyedd Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun

**1.16 Y weledigaeth ar gyfer y CDLl cyfredol**

| |
|---|
| O Fynyddoedd Cambria i Fae Ceredigion, bydd Ceredigion yn parhau'n sir gyfoethog o ran ei golygfeydd a'i bioamrywiaeth, yn sir sy'n ymrwymo i gynnal a chyfoethogi harddwch ei harfordir, ei hucheldir a dyffrynnoedd ei hafonydd ac i gael budd ohonynt.<br><br>Bydd yn gartref i rwydwaith bywiog o gymunedau brwd a dwyieithog, yn ei threfi ac yng nghefn gwlad, a bydd ei thrigolion yn mwynhau iechyd a lles da. Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol a hefyd yn dylanwadu ar newid ac yn ei goleddu er mwyn ymateb i sialensiau'r 21ain ganrif, yn cynnwys newid hinsawdd. Drwy gefnogi a gwella canolfannau gwasanaethau trefol a gwledig y Sir, caiff y berthynas rhyngddynt â'i gilydd ei chryfhau, bydd llai o angen i bobl deithio a bydd mynediad at gyfleusterau lleol a chynaliadwy yn cael ei wella a'i ddiogelu.<br><br>Drwy ddatblygu a gwarchod ei hadnoddau mewn ffordd gynaliadwy, bydd Ceredigion hefyd yn cael ei chydnabod am ragoriaeth am ei hamgylchedd a bydd yn darparu ac yn sicrhau tai priodol, o safon uchel, ac economi gref, amrywiol a blaengar. |

1.16.1 Cynigiwyd gwneud newidiadau i'r weledigaeth gyfredol yn dilyn yr adroddiad o'r adolygiad a pharatoi papurau pwnc ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol. Felly, paratowyd gweledigaeth ddrafft a diwygiad i un o amcanion CDLl1 ar gyfer CDLl2, ac fe ymgynghorwyd ar y rhain drwy ymgysylltu ymhellach â Gweithgorau Rhanddeiliaid Allweddol ac Aelodau'r Cyngor.

**1.17** Y newid a gynigir i CDLl2 yw:

**Erbyn 2033, bydd Ceredigion yn sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac wedi eu hymgysylltu, lle bydd pobl yn dewis byw, astudio, gweithio ac ymweld, wedi'i ymrwymo i wydnwch ei heconomi, ei diwylliant, ei threftadaeth, ei hamgylchedd a'i hadnoddau naturiol, ac i'w hiechyd a'i llesiant.**

**Datganiadau ategol.**

Bydd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy a fydd:

yn diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y gymuned, addysg, iechyd a llesiant.

yn addas i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt.

yn helpu i gryfhau'r Gymraeg.

yn pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, y golygfeydd a'r dreftadaeth ddiwylliannol ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig.

yn galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn ffynnu a llwyddo.

1.17.1 Roedd y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl 1 yn nodi 18 amcan a oedd yn ymateb i faterion penodol roedd angen i'r Cynllun fynd i'r afael â nhw. Mae'r amcanion hyn yn parhau yr un fath i CDLl2 ac eithrio'r amcan Twristiaeth (CDLl Amcan 4) a bydd yn helpu i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer CDLl2 ac yn helpu i ymateb i'r materion a'r tueddiadau a nodwyd drwy'r Adroddiad Cwmpasu ac adolygiad cyffredinol o'r wybodaeth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylfaenol. Dim ond Amcan 4 a'r Weledigaeth ddiwygiedig a'r chwe Pholisi Strategol fydd yn cael eu hasesu, gan fod gweddill y polisïau a'r amcanion wedi'u hasesu eisoes o dan yr

Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer CDLl1.

**1.18 Amcanion y CDLl yw:**

## Lefel, Dosbarthiad a Math o Dwf (Materion Allweddol 1 a 2):

**Amcan 1:**

Darparu amrywiaeth a chymysgedd o dai i fodloni'r anghenion tai trefol a gwledig ac i ddiwallu anghenion amrywiol poblogaeth Ceredigion, a honno'n tyfu ac yn heneiddio, rhwng 2018 a 2033.

**Amcan 2:**

Hybu economi wledig gynaliadwy, amrywiol ac arloesol er budd Ceredigion a'i chymunedau lleol; ac annog gwaith adfywio ac esblygu trefi'r sir fel eu bod yn barod ar gyfer heriau economi fodern a dynamig.

**Amcan 3:**

Annog twf sector manwerthu cynaliadwy i gynnal a gwella canol trefi bywiog a gwarchod a datblygu cyfleusterau manwerthu lleol a chymunedol ledled y sir.

**Amcan 4:**

**Annog a hyrwyddo sector twristiaeth sy'n gynaliadwy ac yn gydnaws â'r amgylchedd gan gyfarwyddyd gwaith cynllunio rheoli cyrchfannau, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu asedau diwylliannol ac amgylcheddol ledled Ceredigion mewn modd sensitif. Yn sail i hyn fydd llety da sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o farchnadoedd ac sy'n darparu amrywiaeth o gyfleusterau ar gyfer pob tymor yn y flwyddyn.**

**Amcan 5:**

Hybu patrwm o dwf sy’n helpu i gynnal hyfywedd nid yn unig y trefi a’u cefn gwlad gyfagos ond hefyd cymunedau gwledig y sir fawr hon, a hwnnw mewn modd i wella nodweddion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a sicrhau’r hygyrchedd a’r cysylltedd mwyaf cynaliadwy posibl.

## Ffurf o Ddatblygiad (Mater Allweddol 3):

**Amcan 6:**

Cynnal a gwella amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel sydd yn caniatáu am ddylunio arloesol, yn creu ymdeimlad o le, yn hawdd ei gyrraedd, y mae modd ei ddefnyddio, yn ddiogel i fyw ynddo ac yn helpu i wella iechyd a llesiant ei gymunedau.

## Cymuned (Mater Allweddol 4):

**Amcan 7:**

Gwella a helpu i sicrhau y darperir lefel briodol o gyfleusterau a gwasanaethau addysg, iechyd, diwylliannol, cymdeithasol, adloniadol, cymunedol, chwaraeon a hamdden, a mynediad atynt.

## Y Gymraeg (Mater Allweddol 5):

**Amcan 8:**

Cynorthwyo datblygiad y Gymraeg a hybu cymunedau dwyieithog cynhwysol yng Ngheredigion.

## Yr Amgylchedd a’r Newid yn yr Hinsawdd (Mater Allweddol 6):

**Amcan 9:**

Sicrhau bod gwaith datblygu’n lleihau cyfraniad nwyon tŷ gwydr Ceredigion, yn unigol ac yn gyffredinol, a cheisio eu lleihau ble bynnag y bo’n bosibl. Sicrhau bod pob datblygiad yn ymaddasol ac

yn wydn rhag natur newidiol yr hinsawdd a gweithio i leihau'r perygl o lifogydd.

**Amcan 10:**

Ceisio cydbwysedd rhwng cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chadwraeth amgylcheddol, yn enwedig o ran ynni gwynt ac wrth bennu rôl technolegau ynni adnewyddadwy eraill.

**Amcan 11:**

Cadw a gwella tirwedd Ceredigion, gan gynnwys amgylcheddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol.

**Amcan 12:**

Atal colli bioamrywiaeth a'i chysylltedd a'u gwella ar draws Ceredigion, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd o flaenoriaeth leol, wrth wella mwynhad a dealltwriaeth pobl o fioamrywiaeth trwy annog mynediad i safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth os gellir diogelu eu cyfanrwydd ecolegol.

**Amcan 13:**

Annog ymagwedd gynaliadwy i ddatblygiadau mewn lleoedd ar yr arfordir wrth warchod cyfanrwydd treftadaeth naturiol a ffisegol yr ardal.

**Amcan 14:**

Gwarchod a rheoli gwasanaethau ecosystem Ceredigion a'i hadnoddau naturiol, gan gynnwys pridd, aer, dŵr a geoamrywiaeth, er mwyn cynnal a gwella eu gwerth heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Amcan 15:**

Darparu cyflenwad priodol a chynaliadwy o adnoddau mwynol i ddiwallu anghenion cymdeithas, heb beryglu'r amgylchedd, amwynderau, geoamrywiaeth neu anghenion adnoddau'r dyfodol.

## Seilwaith a Gwasanaethau (Mater Allweddol 7):

**Amcan 16:**

Helpu i wella'r posibilrwydd o drafnidiaeth gynaliadwy; cydraddoldeb mynediad; a chysylltedd y sir er budd ei heconomi, ei chymunedau a'i hiechyd a llesiant.

**Amcan 17:**

Annog darpariaeth briodol o gyfleustodau ledled y sir.

**Amcan 18:**

Darparu ar gyfer gwaith adfer adnoddau a rheoli gwastraff yn gynaliadwy, gan anelu at leihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, iechyd dynol, cymdeithas a'r economi, sicrhau'r nifer fwyaf posibl o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd, a diwallu anghenion cymunedau a busnesau.

## 1.19 Cydweddoldeb y Weledigaeth ag Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.19.1 Er mwyn cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd y weledigaeth hon, mae'r weledigaeth a'r datganiadau ategol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd. Mae'r matrics arfarnu llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

| Amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd | Gweledigaeth | |
|---|---|---|
| Lleihau achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd (yn cynnwys Newid Arfordirol) | Mae'r CDLl2 yn 'addasu i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt' felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Sicrhau bod mesurau digonol ar gael i addasu i newid yn yr hinsawdd ac i liniaru effeithiau | Mae'r CDLl2 yn 'addasu i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt' felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Lleihau'r perygl o lifogydd | Mae'r CDLl2 yn 'darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy a fydd yn addasu i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt', sy'n cynnwys ystyried yr angen i leihau'r perygl o lifogydd, felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Lleihau unrhyw halogiad a diogelu maint ac ansawdd y pridd a mawn | Mae'r CDLl2 yn 'pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig, y golygfeydd a'r dreftadaeth ddiwylliannol  ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig', yn ystyried gwerth cynhenid ac economaidd pridd a mawn, felly'n cefnogi'r amcan. | + |

| Amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd | Gweledigaeth | |
|---|---|---|
| Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion | Bydd CDLl2 yn ‘addasu i heriau’r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt’ ac yn gofyn am leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, a fydd yn arwain at wella ansawdd aer sydd felly’n cefnogi’r amcan. | + |
| Lleihau effeithiau niweidiol y defnydd o dir ar faint ac ansawdd adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol | Mae’r CDLl2 yn ‘darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy sy’n pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig, y golygfeydd a’r dreftadaeth ddiwylliannol ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig’, yn ystyried gwerth cynhenid ac economaidd adnoddau dŵr, felly’n cefnogi’r amcan. | + |
| Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | Mae’r CDLl2 yn ‘darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy sy’n pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig, y golygfeydd a’r dreftadaeth ddiwylliannol ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig’, yn ystyried gwerth cynhenid ac economaidd adnoddau dŵr, felly’n cefnogi’r amcan. | + |
| Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel | Bydd y CDLl2 yn ‘darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy sy’n diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y gymuned, addysg, iechyd a llesiant.’, felly’n cefnogi’r amcan. | + |
| Gwerthfawrogi, diogelu a hybu bioamrywiaeth, yn cynnwys cysylltedd a | Mae’r CDLl2 yn ‘pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig, y golygfeydd a’r dreftadaeth ddiwyliannol ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig’, yn ystyried potensial gwasanaethau | + |

| Amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd | Gweledigaeth | |
|---|---|---|
| chydnerthedd ecolegol i gyflawni potensial gwasanaethau ecosystem. | ecosystem ac yn cefnogi'r amcan. Pan fydd pobl yn "ymrwymedig i gydnerthedd yr amgylchedd ac adnoddau naturiol" maent yn ystyried gwerth bioamrywiaeth a phwysigrwydd cadwraeth, ac felly'n cefnogi'r amcan. | |
| Deall, gwerthfawrogi, diogelu, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, natur unigryw'r ardal leol a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion. | Mae'r CDLl2 yn 'pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig, y golygfeydd a'r dreftadaeth ddiwyliannol ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig', felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg newidiol yn cael eu hadlewyrchu. | Mae'r CDLl2 yn 'galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn ffynnu a llwyddo' ac yn 'helpu i gryfhau'r Gymraeg' felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Galluogi datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynus. | Mae'r CDLl2 yn 'diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y gymuned, addysg, iechyd a llesiant' ac yn 'galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn ffynnu a llwyddo'. Felly mae'n cefnogi'r amcan. | + |
| Hybu a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach. | Mae'r CDLl2 yn 'diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y gymuned, addysg, iechyd a llesiant' ac yn 'galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn | + |

| Amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd | Gweledigaeth | |
|---|---|---|
| | ffynnu a llwyddo' ac yn 'ymrwymedig i gydnerthedd iechyd a llesiant' felly mae'n cefnogi'r amcan. | |
| Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac ecogyfeillgar, a chyfleusterau hamdden ac adloniant ecogyfeillgar yng Ngheredigion. | Bydd y CDLl2 yn darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n 'pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig, y golygfeydd a'r dreftadaeth ddiwyliannol ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig' ac yn 'sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac wedi eu hymgysylltu lle bydd pobl yn dewis ymweld' ac yn 'galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn ffynnu a llwyddo'. | + |
| Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. | Bydd CDLl2 yn 'sir lle bydd pobl yn dewis astudio' ac yn darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy a fydd yn 'diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y gymuned, addysg, iechyd a llesiant' ac yn 'helpu i gryfhau'r Gymraeg', felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Diogelu a gwella'r Gymraeg a diwylliant. | Mae'r CDLl2 yn 'helpu i gryfhau'r Gymraeg', ac yn 'pennu gwerth ar yr amgylchedd adeiledig, y golygfeydd a'r dreftadaeth ddiwyliannol ar gyfer eu hansawdd gynhenid ac ar gyfer cyfleoedd economaidd cysylltiedig', felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Lleihau'r angen i deithio a'i effaith i alluogi'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth fwy cynaliadwy a gweithredol. | Gallai'r CDLl2 gefnogi'r amcan hwn yn anuniongyrchol drwy ddatblygu cynaliadwy sy'n 'diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y | ? |

| Amcan Arfarniad o Gynaliadwyedd | Gweledigaeth | |
|---|---|---|
| | gymuned, addysg, iechyd a llesiant' ac yn 'addasu i heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt' felly'n cefnogi'r amcan. | |
| Gwella mynediad at wasanaethau i gymunedau, a gwella cysylltedd er mwyn yr economi. | Bydd CDLl yn darparu ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n 'diwallu anghenion o ran tai, yr economi, seilwaith, y gymuned, addysg, iechyd a llesiant' ac yn 'galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn ffynnu a llwyddo felly'n cefnogi'r amcan. | + |
| Annog economi fywiog ac amrywiol. | Mae'r CDLl2 yn 'galluogi preswylwyr, busnesau a chymunedau i sicrhau economi fwy amrywiol, arloesol a gwydn er mwyn ffynnu a llwyddo,' a 'bydd Ceredigion yn sir o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiedig, sydd yn ymrwymedig i gydnerthedd ei heconomi' felly mae'n cefnogi'r amcan. | + |

## 1.20 Cydweddoldeb Amcanion y Cynllun gydag Amcanion

Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud:

> *The objectives of the plan or programme will need to be tested against the SEA objectives to identify both potential synergies and inconsistencies. This information may help in developing alternatives during the development of the plan or programme, and may in some cases help to refine the objectives of the plan or programme itself. Where a plan or programme has several objectives it may also be helpful to test them against each other, as inconsistencies may give rise to adverse environmental effects.*
>
> Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005)

1.20.1 Mae Amcan 4 y CDLl newydd wedi cael ei asesu o safbwynt ei gydweddoldeb gyda'r Amcanion Cynaliadwyedd. Hynny yw, a yw'r camau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Amcan y CDLl yn debygol o fod yr un fath â'r camau a fyddai'n arwain at yr Amcan Cynaliadwyedd. Cafwyd gwybodaeth o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd manwl o opsiynau o fewn Amcan y Cynllun er mwyn gwneud asesiad cyffredinol o amcan y Cynllun ar gyfer yr Amcanion Cynaliadwyedd. Yn wahanol i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n asesu a fydd Amcan y Cynllun yn cyfrannu (neu beidio) at gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd, mae'r asesiad hwn hefyd yn caniatáu'r ystyriaeth wrthgyferbyniol, hynny yw a fydd gweithredu'r Amcan Cynaliadwyedd yn helpu i gyflawni Amcan y Cynllun.

1.20.2 Mae'r dadansoddiad cydweddoldeb hwn yn cael ei asesu trwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol. I wneud hyn yn haws ei ddarllen yr ydym wedi defnyddio fersiynau cryno o'r Amcanion yn y tabl. Mae fersiynau llawn yr Amcanion Cynaliadwyedd yn Atodiad 1; a fersiynau llawn Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn Adran 5.5.

| Cydweddoldeb | Disgrifiad |
|---|---|
| C | Mae'r amcanion yn cydweddu |
| ? | Ansicrwydd ynglŷn â'r cydweddoldeb |
| N | Nid yw'r amcanion yn cydweddu |
| - | Nid oes perthynas rhwng yr amcanion |

**Ffigur 5.2. Allwedd Matrics Cydweddoldeb.**

1.20.3 Yn gyffredinol gwelir bod Amcanion y CDLl yn cydweddu â'r Amcanion Cynaliadwyedd, gan amlaf mae'r ychydig eithriadau prin yn adlewyrchu ansicrwydd ynglŷn â sut y gellir mynegi'r amcan mewn amgylchiadau penodol. Erys rhai cwestiynau ynglŷn â chydweddoldeb yr amcanion oherwydd gallai dilyn un o amcanion y CDLl neu un Amcan Cynaliadwyedd, heb roi sylw i'r lleill, arwain at gyflawni'r naill ar draul y llall. Er enghraifft, gallai cyflawni nodau ar gyfer tai a thwf economaidd yn y Sir achosi niwed i'r dirwedd a bioamrywiaeth pe bai datblygu gormodol yn cael ei ganiatáu.

1.20.4 Dangosir y dadansoddiad o gydweddoldeb yn Ffigur 5.3.

| **Ffigur 5.3 Asesiad cydweddoldeb rhwng Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Amcan 4 y CDLl.** | 1a. Lleihau achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd | 1b. Addasu i newid hinsawdd a lliniaru'r effeithiau | 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd | 2a. Diogelu maint ac ansawdd y pridd a mawn | 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | 2c. Lleihau effeithiau niweidiol y defnydd o dir ar adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol | 3a. Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel | 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a hybu bioamrywiaeth | 5a. Gwerthfawrogi, diogelu a hybu tirwedd y dreftadaeth gyfannol | 6a. Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg gyfnewidiol yn cael eu hadlewyrchu | 6b.Datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynus | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Hybu a datblygu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac ecogyfeillgar | 9. Adeiladu sylfaen addysg a sgiliau | 10. Diogelu a gwella'r Gymraeg a diwylliant | 11a. Lleihau'r angen i deithio a'i effaith i alluogi'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth fwy cynaliadwy | 11b. Gwella mynediad at wasanaethau i gymunedau a gwella | 12. Annog economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. Annog a hyrwyddo sector twristiaeth sy'n gynaliadwy ac yn gydnaws â'r amgylchedd, sy'n cael ei gyfarwyddo gan waith cynllunio rheoli cyrchfannau, sy'n ystyried asedau diwylliannol ac amgylcheddol | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | C | C | C | C | - | - | C | C | C | ? | C | C |

## 1.21 Negeseuon allweddol o'r arfarniad

1.21.1 Diwygiwyd Amcan 4 y CDLl i adlewyrchu hanfodion llesiant yn well, ond dim ond newid bychan i'r geiriad oedd hyn. Mae'r amcan yn gydnaws i raddau helaeth â'r Amcanion Cynaliadwyedd, gyda rhywfaint o ansicrwydd ynghylch effeithiau'r amcanion cynaliadwyedd sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac ansawdd aer, dŵr a phridd. Mae'r amcan yn gydnaws â'r amcanion cynaliadwyedd.

Arfarniad o Gynaliadwyedd Polisïau Strategol a Ffefrir y Cynllun

Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud:

| |
|---|
| *The environmental report shall include information that may reasonably be required taking into account current knowledge and methods of assessment, the contents and level of detail in the plan or programme, [and] its stages in the decision making process.*<br><br>Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005) |

## 1.22 Datblygu'r Strategaeth a Ffefrir

1.22.1 Wrth geisio datblygu strategaeth gydlynol ac effeithiol ar gyfer CDLl2, nid yw'r Cyngor wedi bwrw ymlaen â'r opsiynau a wrthodwyd wrth lunio CDLl1, o ystyried bod yr Arolygydd wedi cytuno mai'r Strategaeth yn y Cynllun mabwysiedig oedd y mwyaf addas o blith yr opsiynau a ystyriwyd gan y Cyngor y pryd hwnnw (Adroddiad yr Arolygydd ar gyfer CDLl 1). Yn achos Ceredigion, bydd twf mewn poblogaeth yn dechrau o bwynt cychwyn is na'r hyn a ragwelwyd yn y CDLl cyfredol. Mae patrymau poblogaeth wedi newid gyda chyfran gynyddol o bobl hŷn a thuedd tuag at aelwydydd llai, yn gosod gofynion ar gyfer darpariaeth tai newydd. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymrwymedig, gyda phartneriaid y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, i ddarparu cyfleoedd economaidd gwell a datblygiad cysylltiedig mewn sgiliau, fel y nodwyd yn y bartneriaeth ranbarthol 'Tyfu Canolbarth Cymru'. Bydd hi'n bwysig darparu tai i ymateb i'r newid a ragwelir ym maint aelwydydd, ynghyd â datblygu cyfleoedd economaidd a sgiliau.

## 1.23 Strategaeth a'r Polisïau Strategol

1.23.1 Dim ond y chwe Pholisi Strategol sydd wedi newid ar gyfer llunio'r CDLl2 diwygiedig fydd yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae crynodeb o'r asesiad o'r Polisïau Strategol a

Ffefrir yn Nhabl 7.4. Mae'r tablau matrics arfarnu llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

| Symbol | Effaith a Ragwelir | Cam gweithredu/ymateb a awgrymir |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad yn gymorth sylweddol i gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach. |
| + | Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn gymorth i gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach. |
| =/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r Amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill. | Ystyried lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio'r polisi neu ddyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| - | Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn gwrthdaro â'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio'r polisi neu ddyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| -- | Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn gwrthdaro'n sylweddol â'r Amcan Cynaliadwyedd. | Mesurau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| I | Mae'r effaith ar yr Amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad. | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu. |
| ? | Effaith ansicr – angen mwy o wybodaeth | Ystyried o ble y daw hyn – gan bwy mae'r wybodaeth? Beth fydd yn cael ei wneud |

| | | |
|---|---|---|
| | | ynglŷn â'i chasglu? Pryd fydd yn cael ei chasglu? |

**Ffigur 6.1 Meini Prawf Arfarniad o Gynaliadwyedd**

1.23.2 Mae yna 6 polisi allweddol (Polisïau Strategaeth) yn ymwneud â maint a lleoliad cyffredinol twf, ynghyd â pholisi strategol ar y Gymraeg. Mae'r polisïau hyn yn ffurfio'r cyswllt rhwng lefel a dosbarthiad y twf y mae'r Strategaeth am ei sicrhau a'r polisïau manylach.

1.23.3 Strategaeth gyffredinol CDLl2 yw gwella cynaliadwyedd cyffredinol y Sir drwy gryfhau prif drefi Ceredigion (y cyfeirir atynt fel Canolfannau Gwasanaethau Trefol yn y CDLl) a thrwy gydnabod ac ymateb mewn modd strategol i'r angen penodol i wella cynaliadwyedd ar draws ardal wledig eang Ceredigion.

1.23.4 Sefydlwyd Strategaeth Anheddu ar gyfer y CDLl, a arweiniodd at nodi 23 o Ganolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig (1 Canolfan Wasanaethau Gwledig yn fwy na CDLl1) a'u Grwpiau Anheddu cysylltiedig. Mae'r rhain wedi'u nodi ar Ddiagram Allweddol, ffigur 7.1.

1.23.5 Mae gan bob Grŵp Anheddu Ganolfan Wasanaethau (Trefol neu Wledig), ac mae'n cwmpasu aneddiadau llai, rhai wedi'u categoreiddio fel Aneddiadau Cysylltiedig Mawr, Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy ac Aneddiadau Cysylltiedig. Roedd mwyafrif y grwpiau hyn yn rhan o CDLl1 ac wedi dod yn amcanestyniadau a gydnabyddir yn lleol ar gyfer y gymuned, felly mae parhau â hyn yn bwysig i CDLl2.

1.23.6 Bydd y Ganolfan Gwasanaethau ar gyfer pob Grŵp Aneddiadau'n cymryd y rhan fwyaf o'r twf ar gyfer y Grŵp hwnnw yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd. (Polisïau S01, S02, a S03)

1.23.7 Roedd y gofynion tai ar gyfer y Cynllun yn deillio o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2014 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Lleol, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, a pholisi a addaswyd yn lleol i ystyried gwaith ar Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i gyfradd adeiladu flaenorol cyfnod y Cynllun cyntaf hefyd. Mae'r ffigurau ar gyfer faint o dai sydd eu hangen a'r ddarpariaeth tai wedi'u cynnwys yn y Polisi Strategol, sy'n cynnig ffigur darpariaeth tai o 3,000 i fodloni'r ffigur gofyniad tai o 2,437 o anheddau.

1.23.8 Mae twf economaidd yn hanfodol er mwyn cynnal cymunedau, yn enwedig ar gyfer eu pobl ifanc ac mae'r Strategaeth yn darparu ar gyfer twf economaidd yn deillio o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a'r Fargen Twf arfaethedig. Bydd safleoedd yn cael eu dyrannu yn nefnydd cyflogaeth y Cynllun Adneuo, gyda rhywfaint ohonynt o ganlyniad i Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Fodd bynnag, bydd cyfran sylweddol o'r twf hwn yn dod o ddatblygu safleoedd cyfredol yn ymwneud ag ymchwil a datblygu, addysgu, amaeth-dechnoleg, ac adfer ac adnewyddu asedau hanesyddol ac archeolegol o arwyddocâd rhyngwladol yn sensitif, sy'n ychwanegu gwerth i Dwristiaeth.

1.23.9 Cydnabyddir bod llawer o swyddi yng Ngheredigion yn rhai hunangyflogedig oherwydd natur sylfaen economaidd y sir. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i fusnesau fod yn agosach at gartrefi pobl, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ac yn helpu cynaliadwyedd yn amodol ar faint y datblygiad.

## 1.24 Arfarniad o Gynaliadwyedd Polisïau Strategol

1.24.1 Gwnaethpwyd arfarniad o'r Polisïau Strategol diwygiedig trwy ddefnyddio Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd, tebyg i'r un a ddatblygwyd yn ystod y broses Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yn ystod yr arfarniad aseswyd ac ystyriwyd effeithiau gan gynnwys amser a pherfformiad a'r effeithiau eilaidd, synergaidd a chronnus a'r gydberthynas rhyngddynt. Gwelir yr arfarniad llawn ar ffurf matrics yn Atodiad 3 gydag un tabl ar gyfer

pob un o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.24.2 Ceir hefyd grynodeb o ganlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ynghyd ag argymhellion ynglŷn â lliniaru a hyrwyddo lle bo angen a lle bo'n briodol.

1.24.3 Rhestrir isod y Polisïau Strategol sydd wedi newid ar gyfer CDLl2. Bydd y Polisïau Strategol yn cael eu cefnogi gan bolisïau manwl yn fersiwn Adneuo'r CDLl (a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol lle bo angen), a fydd yn sicrhau egwyddorion y polisïau strategol hyn.

**Polisi S01:**
**Twf Cynaliadwy**

Canolbwyntir ar sicrhau twf i ddarparu cymunedau cryfach, mwy cynaliadwy a bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarparu cyfle i ddatblygu fel a ganlyn:

1. Tua 3,000 o anheddau er mwyn bodloni'r gofyniad twf rhagamcanol o 2437 o unedau annedd (gweler Tabl 6.1). Bydd hyn yn cael ei gyflawni mewn modd cynaliadwy drwy'r dosbarthiad canlynol:
    a. O leiaf 55% yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol yn unol â Pholisi S02 ar safleoedd wedi eu dyrannu fel y nodwyd yn Atodiad XX, ac a ddangosir ar y Map Cynigion ac ar 'safleoedd ar hap';
    b. 20% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Cysylltiedig Mawr ar safleoedd wedi eu dyrannu fel y nodwyd yn Atodiad 2, y Datganiad Grwpiau Aneddiadau ac a ddangosir ar y Map Cynigion yn unol â Pholisi S03; a
    c. 15% mewn Aneddiadau Cysylltiedig Mawr;
    d. 10% yn yr Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy;

e. Dim ond cynigion sy'n cyd-fynd â'r Polisi Cenedlaethol yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ar safleoedd heb eu dyrannu yn unol â Pholisi S04.[1]

2. Cyfleoedd cyflogaeth i ddarparu xxxx[2] o swyddi ledled y Sir mewn modd cynaliadwy yn unol â Pholisïau S02, S03 a S04, naill ai ar:

    a. Y xx o hectarau (net) o dir a ddyrannwyd i'w ddangos ar Fap Cynigion y Cynllun Adneuo; neu

    b. Safleoedd sydd heb eu dyrannu yn unol â pholisïau LU11-LU21.

3. Mathau eraill o ddatblygiad ar safleoedd wedi eu dyrannu fel y nodwyd yn y Datganiad Grwpiau Aneddiadau ac a ddangosir ar y Map Cynigion a hefyd ar safleoedd heb eu dyrannu cyn belled eu bod yn cyd-fynd â Pholisi'r Cynllun.

Wrth gyflawni'r twf hwn, mae amgylchedd ac adnoddau'r Sir yn cael eu diogelu a'u gwella.

**Polisi S02:**

**Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol**

Mae Canolfannau Gwasanaethau Trefol yn darparu lleoliadau cynaliadwy lle bydd datblygu'n cael ei ganiatáu:

[1] Ni fydd y ganran a nifer yr unedau uchaf a nodir, unwaith y'u cyrhaeddir, yn atal datblygu unedau pellach cyn belled â bod modd cyfiawnhau hynny yn unol â'r Canllawiau Cenedlaethol.

[2] Bydd ffigur y swyddi a'r hectarau'n cael eu pennu o ganlyniad i waith tir cyflogaeth a gomisiynwyd ar y cyd gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (Mai 2019) ac yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Adneuo.

1. Mewn perthynas ag Aberystwyth;

    a. Yn cyfrannu at gynnal ei arwyddocâd cenedlaethol a'i rôl fel canolfan strategol i'r Canolbarth;

NEU

2. Mewn perthynas ag Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Aberaeron a Thregaron:

    a. Yn cyfrannu at eu rôl isranbarthol cyffredinol fel y nodwyd yn y Datganiad Grwpiau Aneddiadau;

NEU

3. Mewn perthynas ag Aneddiadau Cysylltiedig Mawr sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Gwasanaethau Trefol bydd datblygiad tai'n cael ei ganiatáu yn unol â'r Datganiad Grwpiau Aneddiadau a pholisïau eraill y Cynllun, o ran:

    a. safleoedd wedi eu dyrannu (gweler y Datganiad Grwpiau Aneddiadau a'r Map Cynigion) hyd at y lefelau darpariaeth tai a nodwyd mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo; a

    b. safleoedd ar hap;

AC

4. Mewn perthynas â phob Canolfan Gwasanaethau Trefol a'r Aneddiadau Cysylltiedig Mawr:

    a. ei fod o fewn ffin ddiffiniedig yr anheddiad (gweler Map Cynigion), yn cyd-fynd â darpariaethau y Datganiad Grwpiau Aneddiadau ac yn bodloni holl bolisïau eraill y Cynllun.

**Polisi S03:**

**Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig**

Bydd canolbwyntio datblygiad mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig yn gwella cynaliadwyedd ardaloedd gwledig ac felly bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu fel a ganlyn yn y Ganolfan Gwasanaethau Gwledig:

1. Datblygiad tai yn unol â'r Datganiad Grwpiau Aneddiadau a pholisïau eraill y Cynllun, o ran:
    a. safleoedd wedi eu dyrannu (gweler y Datganiad Grwpiau Aneddiadau a'r Map Cynigion[3]) hyd at y lefelau darpariaeth tai a nodwyd mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo; a
    b. safleoedd ar hap;

NEU

*2.* Mewn perthynas ag Aneddiadau Cysylltiedig Mawr sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Gwasanaethau Trefol bydd datblygiad tai'n cael ei ganiatáu yn unol â'r Datganiad Grwpiau Aneddiadau, y Canllawiau Cynllunio Atodol a pholisïau eraill y Cynllun, o ran
    b. safleoedd wedi eu dyrannu (gweler y Datganiad Grwpiau Aneddiadau a'r Map Cynigion) hyd at y lefelau darpariaeth tai a nodwyd mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo;
    c. safleoedd ar hap;

A

3. Mewn perthynas â phob Canolfan Gwasanaethau Gwledig ac Aneddiadau Cysylltiedig Mawr
    a. ei fod o fewn ffin ddiffiniedig yr anheddiad (gweler Map Cynigion), yn cyd-fynd â darpariaethau Datganiad Grwpiau Aneddiadau, y Canllawiau Cynllunio Atodol ac yn bodloni holl bolisïau eraill y Cynllun.

4. Datblygiad cyflogaeth yn unol â'r Datganiad Grwpiau Aneddiadau a pholisïau eraill y Cynllun, o ran safleoedd wedi eu dyrannu (gweler Map Cynigion) ac ar safleoedd heb eu dyrannu. Ni ddylai datblygiad ar safleoedd heb eu dyrannu fod yn fwy na 'chanolig' mewn maint;

[3] I'w gyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo

5. Datblygiad manwerthu dim ond pan fydd yn darparu cyfleoedd am ddewis gwell o nwyddau cyfleus; a
6. Mathau eraill o ddatblygiad a fydd yn cefnogi swyddogaeth y Ganolfan Gwasanaethau Gwledig yn unol â'r Datganiad Grwpiau Aneddiadau.

Yn ogystal, mae'n rhaid i bob datblygiad tai gael ei ddatblygu o fewn ffin ddiffiniedig yr anheddiad a nodwyd ar y Map Cynigion, i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cynllun Adneuo ac eithrio safleoedd eithriedig gwledig (gweler Polisi S05 Tai Fforddiadwy). Bydd defnyddiau eraill sy'n cael eu datblygu ger ffin yr anheddiad yn cael eu caniatáu, cyn belled eu bod yn cyd-fynd â pholisïau eraill y Cynllun a lle y dangoswyd nad oes lleoliad addas ar gael o fewn y ffin.

**Polisi S04:**

**Datblygu mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig'**

Rhaid wrth rywfaint o ddatblygu mewn lleoliadau heblaw'r Canolfannau Gwasanaethau (Trefol neu Wledig) i ddiwallu anghenion cymunedau presennol. Fodd bynnag, maent yn llai cynaliadwy ac felly bydd datblygiad mewn 'Aneddiadau Cysylltiedig a Lleoliadau Eraill' ond yn cael eu caniatáu:

1. Pan nad yw'n arwain at golli gwasanaethau a chyfleusterau oni bai bod digon o ddarpariaeth mewn anheddiad gerllaw neu Ganolfan Wasanaethau;

2. Yn achos datblygiad tai:
   a. Bydd darpariaeth tai cyffredinol ond yn cael ei chaniatáu yn yr 'Aneddiadau Cysylltiedig Mawr' a'r Aneddiadau Cysylltiedig Cynaliadwy. Mae pob 'Anheddiad Cysylltiedig' a chefn gwlad agored arall yn amhriodol ar gyfer datblygiad tai oni bai bod modd ei gyfiawnhau ar y sail ei fod yn diwallu:

i. angen na fodlonwyd am dai fforddiadwy yn yr ardal a'i fod yn cyd-fynd â Pholisi S05; neu

ii. angen am fenter wledig yn unol â TAN 6; neu

iii. angen i warchod ased hanesyddol yn ôl diffiniad Deddf Amgylchedd Hanesyddol (2015) a TAN 24; neu ei fod yn

iv. cydymffurfio â gofynion LU09 o ran adfer cyn anheddau neu anheddau y cefnwyd arnynt; neu ei fod

v. cydymffurfio â 'Datblygu yng nghefn gwlad' (Polisi Cynllunio Cymru 3.56) o ran cynyddu gweithgarwch economaidd lleol.

NEU

3. Yn achos datblygiad economaidd:

a. datblygiad a gynigir ar safle dyranedig fel y nodwyd yn y Datganiad Grwpiau Aneddiadau a'u dangos ar y Map Cynigion; neu

b. datblygiad ar safle heb ei ddyrannu a naill ai sydd:

i. o 'faint bychan' sy'n diwallu angen lleol penodol; neu

ii. sy'n cyd-fynd â gofynion TAN 6 o ran menter wledig.

AC

Ym mhob achos

4. O ran ei leoliad ffisegol, waeth beth fo math y datblygiad:

a. Mewn 'Anheddiad Cysylltiedig', ei fod yn cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru 3.56 ac wedi'i leoli o fewn neu'n union gerllaw y datblygiad parhaol; neu

b. Mewn 'Lleoliadau Eraill', ei fod naill ai'n cyd-fynd â gofynion TAN 6 neu o ran tai fforddiadwy, ei fod wedi'i leoli yn union gerllaw grwpiau cyfredol o anheddau yn unol â bwriadau Para 3.56 Polisi Cynllunio Cymru a TAN 2, Para 10.13.

**Polisi S05:**

**Tai Fforddiadwy**

Note – a figure for affordable housing to be included within the policy will be identified for inclusion in the Deposit LDP as a result of current regionally commissioned research (Cross border housing market Assessment and Regional viability work)

Mae polisïau a dyraniadau'r CDLl yn ceisio sicrhau tua xx o gartrefi fforddiadwy drwy:

1. Geisio negodi cyfran o Dai Fforddiadwy ar bob cynllun tai newydd ac addasiadau sy'n cynnwys mwy na 5 uned, yn benodol i'r lefelau cyfraniad amrywiol a fapiwyd ledled y sir (gweler map Polisi S05). Bydd y cymysgedd yn cyd-fynd â dosbarthiad yr Asesiad o'r Angen Lleol am Dai neu yn ôl yr hyn a benderfynwyd mewn cam cyn-ymgeisio i fodloni gofynion yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Tai Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar anghenion cyfredol yn yr ardal ac ar y gallu i gyflawni).

2. Ei gwneud hi'n ofynnol, pan fydd cynigion o ganlynid i Faen Prawf 1 yn cynnwys gofyniad tai fforddiadwy nad yw'n uned gyfan neu pan na ellir darparu'r gymysgedd fel unedau cyfan, yna:
    i. bydd cynllun o werth cyfwerth yn cael ei benderfynu er mwyn bodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Tai Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar angen lleol a'r gallu i gyflawni; neu
    ii. bydd swm gohiriedig yn cael ei dalu ar lefel sy'n gyfwerth i Werth Marchnad Agored y cynllun cyfan neu rannol neu'r taliad sy'n weddill.

3. Caniatáu 100% o safleoedd tai fforddiadwy pan ellir cyfiawnhau hynny gan dystiolaeth o angen lleol am dai fforddiadwy na fodlonwyd cyn

belled â bod lleoliad y datblygiad yn cyd-fynd â Pholisïau S02, S03 a S04. Bydd safleoedd tai eithriedig gwledig ond yn cael eu caniatáu mewn perthynas â Chanolfannau Gwasanaethau Trefol, 'Aneddiadau Cysylltiedig Mawr', 'Aneddiadau Cysylltiedig' a 'Lleoliadau Eraill'.

Bydd deiliadaeth yr holl dai fforddiadwy'n cael ei reoli am byth yn unol â manylion i'w nodi mewn atodiad i'r Cynllun Adneuo.

Mae'n rhaid i ddatblygiadau sy'n cynnwys tai fforddiadwy neu sy'n cynnig 100% o dai fforddiadwy ddarparu digon o wybodaeth i nodi lleoliad y plot, maint y plot, safon yr adeiladu a pha fath o eiddo yw'r unedau fforddiadwy. Os nad oes digon o wybodaeth i benderfynu gwerth yr uned ar ôl ei chwblhau, bydd y cais yn cael ei wrthod.

Bydd angen i ddatblygwyr sy'n ceisio negodi gostyngiad yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy gyflwyno manylion i ddangos diffyg hyfywedd ar gyfer y safle dan sylw ar sail cyfrifon agored sy'n dangos cost anarferol nad oedd yn bosibl i'w ystyried ar adeg y dyrannu (lle bo'n berthnasol).

**Polisi S06:**

**Cynllunio a'r Gymraeg**

Bydd y Cyngor Sir yn hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddynodi Ceredigion gyfan yn sensitif yn ieithyddol.

## 1.25 Arfarnu Polisïau Strategol y Strategaeth a Ffefrir

1.25.1 Cynhaliwyd yr arfarniad o'r chwe pholisi strategol gan ddefnyddio Fframwaith tebyg i'r un a ddatblygwyd yn ystod y broses Gwmpasu. Cafodd effeithiau a oedd yn cynnwys amserlen, perfformiad, effeithiau eilaidd a chronnol a'u perthynas briodol â'i gilydd eu hasesu a'u hystyried yn ystod yr

arfarniad. Cyflwynir yr arfarniad llawn yn Atodiad 3 ar ffurf matrics, gyda thabl ar gyfer pob Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.


1.25.2 Mae crynodeb o’r asesiadau ar gyfer y Polisi Strategol i’w weld yn Nhabl 7.4, a throsolwg cryno o ganlyniadau’r Adolygiad o Gynaliadwyedd wedi’i gynnwys yn adran 8.

## 1.26 Arfarniad o Gynaliadwyedd Safleoedd Strategol

Ni chynigiwyd unrhyw Safleoedd Strategol yn y CDLl2 newydd.

## Strategaeth Aneddiadau

Ffigur 7.1. Diagram Allweddol ar gyfer Strategaeth Aneddiadau.



## 1.2 Ffigur 7.2 Strategaeth Aneddiadau ar gyfer Dosbarthiad Twf: Grwpiau Aneddiadau Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig – Tabl

Mae'r niferoedd yn cynrychioli rhif unigryw a roddir i bob Canolfan sydd yna'n gweithredu fel y dynodydd ar gyfer pob Grŵp Anheddiad

| | 01 | 02 | 03 | 04 | 05 | 06 | 07 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfannau Gwasanaethau Trefol (Trefi)** | **Aberaeron (Ffosyffin, Llwyncelyn)** | **Aberteifi** | **Aberystwyth /Llanbadarn Fawr /Waunfawr /Penparcau /Rhydyfelin/ Comins Coch** | **Castellnewydd Emlyn, [Sir Gaerfyrddin] (Adpar)** | **Llanbedr Pont Steffan** | **Llandysul** | **Tregaron** |
| **Aneddiadau Cysylltiedig Mawr** | | Llechryd | Llanfarian | | | | |
| | | Pen-parc | Capel Bangor | | | | |
| **Aneddiadau Cysylltiedig** | Aberarth | Ferwig | Blaenplwyf | Betws Ifan | Llanwnnen | Aberbanc/ Penrhiwllan | Bronnant |
| | Ciliau Aeron | Gwbert | Llangorwen | Beulah | Cellan/Fisher's Arms | Capel Dewi (S) | Llanddewi Brefi |
| | Pennant | Llangoedmor | Capel Seion | Brongest | Cwrtnewydd | Coed-y-bryn | Llangeitho |
| | | | Goginan | Bryn-gwyn | Llanwennog/ Dre-fach | Croes-lan | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cwm Cou | Llangybi | Ffostrasol | |
| | | | | Llandyfriog | | Henllan | |
| | | | | | | Horeb | |
| | | | | | | Talgarreg | |
| | | | | | | Rhydowen/ Pontsiân | |
| | | | | | | Pentrellwyn/Gorrig | |
| | | Mae Aneddiadau ‘Cysylltiedig’ â’r Grŵp Aneddiadau hwn wedi’u lleoli yn Sir Benfro hefyd | | Mae Aneddiadau ‘Cysylltiedig’ â’r Grŵp Aneddiadau hwn wedi’u lleoli yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro hefyd | Mae Aneddiadau ‘Cysylltiedig’ â’r Grŵp Aneddiadau hwn wedi’u lleoli yn Sir Gaerfyrddin hefyd | Mae Aneddiadau ‘Cysylltiedig’ â’r Grŵp Aneddiadau hwn wedi’u lleoli yn Sir Gaerfyrddin hefyd | |

| **Canolfannau Gwasanaethau Gwledig** | **08** | **09** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Aber-porth / Parc-llyn** | **Bow St** | **Ceinewydd a Cross Inn** | **Cenarth** | **Felin-fach/Ystrad Aeron** | **Llanarth** | Llanilar | **Llan-non** |
| **Anheddiad Cysylltiedig Mawr** | | Llandre | | | | | | |
| **Aneddiadau Cysylltiedig** | Blaenannerch | | Caerwedros/ Llwyndafydd | Llandygwydd | Cilcennin | Gilfachreda | Lledrod | Bethania |
| | Blaen-porth | | Plwmp | | Cribyn | Mydroilyn | Llanafan | Cross Inn(Llan-non) / Nebo |
| | Tan-y-groes | | Maen-y-groes | | Dihewyd | | | |
| | Tre-saith | | Synod Inn /Pentre'r Bryn | | Tal-sarn | | | |
| | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae Aneddiadau 'Cysylltiedig' â'r Grŵp Aneddiadau hwn wedi'u lleoli yn Sir Benfro hefyd | | | | |

| **Canolfannau Gwasanaethau Gwledig** | 16 | **17** | **18** | **19** | **20** | **21** | **22** | **23** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llanrhystud | **Llanybydder** | **Penrhyn-coch** | **Ponterwyd** | **Pontrhydfendigaid** | **Tal-y-bont** | **Borth** | **Brynhoffnant** |
| **Aneddiadau Cysylltiedig** | Llangwyryfon | Alltyblaca/ Highmead | | Pontarfynach | Pont-rhyd-y-groes | Eglwys-fach/ Ffwrnais | Dôl-y-bont | Llangrannog |
| | | | | | Ysbyty Ystwyth | Tre'r Ddol | Ynys-las | Pontgarreg |
| | | | | | Ystrad Meurig | Tre Taliesin | | Sarnau |
| | | | | | | | | Rhydlewis |
| | | Mae Aneddiadau 'Cysylltiedig' â'r Grŵp Aneddiadau hwn wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin hefyd | | | | | | |

Nid oes gan Aneddiadau Cysylltiedig sydd y tu allan i'r Sir gyfran o lwfans tai Grŵp Aneddiadau Ceredigion, gan fod dyraniadau yn eu siroedd cyfagos nhw'n diwallu eu hanghenion.

## 1.3 Arfarnu'r Polisïau Strategol a'r Safleoedd Strategol

1.3.1 Cafodd y 6 Pholisi Strategol ar gyfer CDLl2 eu hasesu o safbwynt eu heffeithiau tebygol o ran yr Amcanion Cynaliadwyedd. Hynny yw, a yw'r camau sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Polisïau Strategol y CDLl yn debygol o fod yr un fath â'r rhai a fyddai'n arwain at gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. Bu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd manwl ar bob un o elfennau polisïau strategol y CDLl yn sylfaen i asesiad cyffredinol o Bolisïau Strategol y CDLl ar gyfer pob un o'r Amcanion Cynaliadwyedd. Mae tabl 7.4 yn rhoi crynodeb o asesiad yr opsiynau a'r argymhellion strategol a'r argymhellion. Mae Atodiad 3 yn cynnwys tablau matrics yr arfarniad llawn gan gynnwys manylion effeithiau tybiedig y polisiau.

1.3.2 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o feini prawf yr asesiad.

| Symbol | Effaith a Ragwelir | Gweithredu/ymateb a awgrymir |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad yn gymorth sylweddol i gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach. |
| + | Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn gymorth i gyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach. |
| =/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r Amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill. | Ystyried lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio'r polisi neu ddyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| - | Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn gwrthdaro â'r Amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio'r polisi neu ddyraniad |

| | | |
|---|---|---|
| | | safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| **--** | Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn gwrthdaro'n sylweddol â'r Amcan Cynaliadwyedd. | Mesurau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailystyried y polisi neu'r defnydd a gynigir. |
| **I** | Mae'r effaith ar yr Amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad. | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu. |
| **?** | Effaith ansicr – angen mwy o wybodaeth | Ystyried o ble y daw hyn – gan bwy mae'r wybodaeth? Beth fydd yn cael ei wneud ynglŷn â'i chasglu? Pryd fydd yn cael ei chasglu? |

**Ffigur 7.3 Meini Prawf Asesu**

1.3.3 Yn gyffredinol mae'r effeithiau y rhagamcanir y byddent yn deillio o weithredu Polisïau Strategol y CDLl yn cydymffurfio â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Rhagwelir y bydd rhai effeithiau negyddol, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â thai newydd a datblygu cyflogaeth a'r tir ychwanegol fydd ei angen ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd o'r fath. Gan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd ym mhle bydd datblygiadau newydd yn digwydd mae ansicrwydd sut y bydd rhai polisïau yn effeithio ar lawer o'r Amcanion Cynaliadwyedd. Mae rhai cwestiynau ynglŷn â chydweddoldeb yr amcanion yn codi o'r ffaith y byddai gweithredu un o Bolisïau Strategol neu Amcanion Cynaliadwyedd y CDLl, heb roi sylw i'r lleill yn gallu arwain at gyflawni'r naill ar draul y llall. Er enghraifft, gallai nodau sy'n ymwneud â chyflawni twf tai a thwf economaidd yn y sir beri

effeithiau niweidiol i'r dirwedd ac i fioamrywiaeth pe caniateid datblygu gormodol.

| Table 7.4 Arfarniad o Opsiynau Polisi Strategol<br><br>Polisi | 1a. Lleihau achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd | 1b. Addasu i newid hinsawdd a lliniaru'r effeithiau | 1c. Lleihau'r perygl o lifogydd | 2a. Diogelu maint ac ansawdd y pridd a mawn | 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | 2c. Diogelu maint ac ansawdd adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol | 3a. Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel | 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a hybu bioamrywiaeth a gwireddu potensial | 5a. Gwerthfawrogi, diogelu a hybu tirwedd yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | 6a. Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg | 6b.Datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynus | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth a chyfleusterau hamdden ac adloniant cynaliadwy ac ecogyfeillgar | 9. Adeiladu sylfaen addysg a sgiliau | 10. Diogelu a gwella'r Gymraeg a diwylliant | 11a. Hybu dulliau cynaliadwy o deithio | 11b. Gwella mynediad at wasanaethau | 12. Annog economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth ac Amcanion | ++ | ++ | + | + | + | + | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | + | + | + | ++ | + | + | + |
| Strategaeth a Ffefrir | - | 0 | 0 | + | - | - | + | 0 | ? | ? | ++ | ++ | + | + | + | ++ | + | + | ++ |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | - | 0 | 0 | - | - | - | + | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ |
| Polisi S02: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol | + | 0 | 0 | + | + | - | 0 | + | ? | ? | + | + | + | + | + | 0 | + | + | + |

| **Table 7.4 Arfarniad o Opsiynau Polisi Strategol**<br><br>**Polisi** | 1a. Lleihau achosion a rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd | 1b. Addasu i newid hinsawdd a lliniaru'r effeithiau | 1c. Lleihau'r perygl o llifogydd | 2a. Diogelu maint ac ansawdd y pridd a mawn | 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | 2c. Diogelu maint ac ansawdd adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol | 3a. Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol | 3b. Gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel | 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a hybu bioamrywiaeth a gwireddu potensial | 5a. Gwerthfawrogi, diogelu a hybu tirwedd yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | 6a. Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg | 6b.Datblygu cymunedau bywiog, diogel, fforddiadwy, hygyrch a chydlynus | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth a chyfleusterau hamdden ac adloniant cynaliadwy ac ecogyfeillgar | 9. Adeiladu sylfaen addysg a sgiliau | 10. Diogelu a gwella'r Gymraeg a diwylliant | 11a. Hybu dulliau cynaliadwy o deithio | 11b. Gwella mynediad at wasanaethau | 12. Annog economi fywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi S03: Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Polisi S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cysylltiedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | ? | ? | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | - | - | ++ | ++ | + | 0 | 0 | + | + | + | + |
| Polisi S06: Cynllunio a'r Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | ++ | 0 | 0 | + |

## Gwerthuso Ansicrwydd a Risgiau Polisïau Strategol a Ffefrir y CDLl

1.3.4 Er bod rhai polisïau strategol yn cael sgôr negyddol yn erbyn yr Amcan Cynaliadwyedd, gall mesurau lliniaru helpu lleddfu rhai o'r effeithiau, os nad eu diddymu. Mae'n werth nodi bod yr effeithiau negyddol i gyd yn fach.

1.3.5 Polisi S01: Twf economaidd, sydd â'r nifer uchaf o effeithiau negyddol a ragamcanir, ac mae pob un ohonynt yn ymwneud ag amcanion amgylcheddol. Y rheswm am hynny yw bod caniatáu unrhyw ddatblygiadau newydd yn sicr o gael rhai effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd gan y byddai'n golygu cynnydd yn y nwyon tŷ gwydr, gostyngiad posibl yn ansawdd yr aer, selio a cholli rhywfaint o bridd, a dirywiad posibl yn ansawdd a maint y dŵr trwy effeithio ar batrymau draenio. Hefyd mae ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd y gallai datblygiadau newydd effeithio ar fioamrywiaeth a gwerth y dirwedd.

1.3.6 Er gwaethaf yr effeithiau hyn, mae gweithredu deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, a pholisïau penodol Rheoli Datblygu sy'n cynnwys ystod eang o elfennau'n ceisio lliniaru effeithiau ar gyfer nwyon tŷ gwydr a dirywiad yn ansawdd yr aer, drwy ddeddfwriaeth. Mae colli pridd yn cael ei liniaru gan Bolisi Cynllunio Cymru 10 sy'n annog datblygiadau dwysedd uchel ac ailddefnyddio safleoedd tir llwyd. Mae dirywiad ansawdd a maint dŵr yn cael ei liniaru gan bolisi DM 22, sy'n sicrhau nad yw datblygiad newydd yn cael effaith negyddol ar ddŵr a Deddfwriaeth Genedlaethol sy'n mynnu bod pob datblygiad yn ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS) er mwyn rheoli gwastraff dŵr a dŵr ffo.

1.3.7 Polisi S02: Rhagwelir y bydd Canolfannau Gwasanaethau Trefol hefyd yn cael effaith negyddol ar ansawdd a maint dŵr, ac mae hyn yn cael ei liniaru trwy weithredu SUDS yn genedlaethol gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, ar gyfer pob datblygiad newydd.

1.3.8 Polisi S05: Gall tai fforddiadwy gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth a thirwedd, gan y gallent arwain at ddatblygu ar safleoedd eithriadau. O

safbwynt bioamrywiaeth, mae Polisïau Rheoli Datblygiad yn lliniaru rhai o'r effeithiau, naill ai trwy fynnu bod agwedd gynaliadwy yn cael ei chymryd tuag at y datblygiad neu trwy roi cefnogaeth weithredol i'r Amcan Cynaliadwyedd trwy elfennau penodol o bolisïau bioamrywiaeth a chadwraeth natur. Hefyd bydd astudiaeth gan y ganolfan gofnodion lleol yn dynodi'r aneddiadau a'r lleoliadau lle mae'r bioamrywiaeth mwyaf cyfoethog, gan ganiatáu'r awdurdod gyfeirio datblygiadau i ardaloedd sy'n llai pwysig.

## 1.4 Negeseuon allweddol o'r arfarniad

1.4.1 Yn gyffredinol roedd 6 Polisi Strategol y CDLl2 yn cael sgôr da yn yr arfarniad ac ni fernir bod unrhyw un o'r polisïau yn cael effeithiau negyddol sylweddol o gymharu â'r Amcanion Cynaliadwyedd.

## 1.5 Asesu Effeithiau Cronnus Amcanion ac Opsiynau'r Cynllun

1.5.1 Un o ofynion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yw bod effeithiau amcanion a pholisïau strategol y CDLl newydd yn cael eu hasesu ynghyd ag elfennau eraill o'r Cynllun (yn hytrach nag ar eu pen eu hunain). Gelwir yr effeithiau cyfunedig hyn yn effeithiau cronnus ac maent yn codi oherwydd bod effeithiau nifer o wahanol elfennau yn cael eu hychwanegu at ei gilydd fel bod yr effaith yn fwy; a hefyd effeithiau synergyddol, sef rhai sy'n codi allan o'r rhyngweithio rhwng effeithiau ac amcanion, ac y gellir meddwl amdanynt fel effeithiau sy'n fwy na chyfanswm y rhannau.

1.5.2 Gan fod amcanion a pholisïau strategol y CDLl newydd yn cael eu grwpio yn ôl themâu, yr ydym wedi mabwysiadu'r themâu hyn er mwyn helpu gyda'r asesiad:

a. Lefel, dosbarthiad a math y twf;
b. Ffurf y twf;
c. Y Gymuned;
d. Yr Iaith Gymraeg;
e. Yr Amgylchedd/Newid yn yr Hinsawdd;
f. Seilwaith a Gwasanaethau.

1.5.3 Er mwyn asesu Amcanion CDLl2 maent yn cael eu hamlygu ar ffurf yr opsiynau polisi y maent yn ceisio eu cyflawni. Mae'r set lawn o Amcanion ar gael yn Adran 5.5.

1.5.4 Yn gyffredinol wrth eu hystyried gyda'i gilydd ar draws y gwahanol themâu mae effeithiau cyfun yr amcanion yn gadarnhaol, yn arbennig mewn perthynas â'r amgylchedd, gan y bydd yr amcanion amddiffyn a gwella'r amgylchedd, dylunio ac ynni yn lliniaru neu'n atal unrhyw effeithiau negyddol bydd yr amcanion yn eu cael mewn themâu eraill. Fodd bynnag, mae hyn yn codi'r posibilrwydd bod effeithiau cymdeithasol ac economaidd yr amcanion amgylcheddol yn negyddol oherwydd eu bod yn gosod cyfyngiadau ar ddatblygu er mwyn cyflawni nodau cymdeithasol economaidd.

## 1.6 Lefel, Dosbarthiad a Math y Twf a Ffurf y Twf

1.6.1 Amcanion a Pholisïau Strategol y thema hon oedd yn cael y nifer fwyaf o effeithiau negyddol ar amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r brif effaith gronnus bosibl yn codi o'r ffaith eu bod hwy i gyd yn ymwneud â datblygiad newydd i gefnogi anghenion y sir yn y dyfodol. Bydd hynny'n sicr o gael ystod o effeithiau amgylcheddol. Y prif ffactor sy'n cyfyngu ar yr effaith hon yw bod y polisïau yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r datblygiadau i'r prif aneddiadau gan ganiatáu nifer cyfyngedig o ddatblygiadau yn unig tu allan i'r prif aneddiadau. Fodd bynnag, gan mai lle cyfyngedig sydd ar gael o fewn yr aneddiadau adeiledig hynny mae'n debygol y bydd angen datblygu tir ar ymylon aneddiadau er mwyn cyflawni'r angen a ddisgwylir. Mae'n anochel y bydd hynny'n effeithio ar fioamrywiaeth, tirwedd ac agweddau amgylcheddol eraill. Mae'n werth ailadrodd y bydd polisïau amddiffyn yr amgylchedd a pholisïau dylunio'r CDLl2, ac mae llawer ohonynt wedi eu hymgorffori yn y thema hon, yn llwyddo i liniaru llawer o'r effeithiau ac nid yw'r effaith gronnus gyffredinol yn debygol o fod yn fawr.

1.6.2 Yn gronnus, mae'r Amcanion a'r Polisïau Strategol yn debygol o beri effaith gymdeithasol economaidd gadarnhaol trwy hybu twf economaidd a darparu

ar gyfer anghenion tai'r boblogaeth. Yn ychwanegol at hynny mae'r amcanion a'r polisïau strategol sy'n ymwneud â thwristiaeth yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar nod y Sir i gynyddu nifer ymwelwyr a sicrhau twf yn y sector twristiaeth.

## 1.7 Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg

1.7.1 Gan fod y ddwy thema yma yn ymwneud â ffactorau cymdeithasol sydd ar waith yn y sir, maent wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd er mwyn asesu effeithiau cronnus. Mae'r thema'n debyg i'r un sy'n ymwneud â thwf a dosbarthiad datblygiadau gan ei bod yn debygol o ymwneud â rhyw ffurf o ddatblygu a fydd yn digwydd er mwyn cynnal y nodau neu'r amcanion. Ond mae maint yr effaith yn ansicr gan na wyddys beth fydd lefel twf y polisïau hyn.

## 1.8 Yr Amgylchedd/Newid yn yr Hinsawdd

1.8.1 Gan mai ychydig iawn o lefydd (os oes unrhyw le o gwbl) sy'n debygol o fod yng Ngheredigion lle na fyddai o leiaf un o'r Amcanion a'r Polisïau Strategol yn berthnasol, y maent rhyngddynt yn debygol o osod cyfyngiadau sylweddol ar natur y gweithgaredd a all ddigwydd yn y sir. Er enghraifft gellid atal codi tai mewn rhai ardaloedd, neu osod cyfyngiadau ar natur y tai y gellir eu codi fel bod y datblygiad yn anhyfyw, yn arbennig ar gyfer pobl sydd mewn amgylchiadau ariannol cyfyng. O safbwynt amcanion cynaliadwyedd cymdeithasol economaidd y sir, mae'n bosibl na fydd cyfyngu ar adeiladu tai ar gyfer y farchnad yn broblem, gan fod tai o'r fath yn annhebygol o ddelio â'r problemau tai y mae cymunedau Ceredigion yn eu hwynebu. Fodd bynnag, petai'r effaith yn cyfyngu ar ddatblygu tai fforddiadwy, neu'n lleihau nifer y tai fforddiadwy a fyddai'n ddichonadwy mewn datblygiadau tai ar gyfer y farchnad, yna byddai'r amcanion a'r polisïau strategol yn peri effaith annymunol. Fodd bynnag, o'u hystyried mewn cyfuniad â'r amcanion a'r polisïau strategol ar gyfer y thema twf a datblygu, mae'r effaith gyffredinol yn debygol o fod yn fychan gan fod y polisïau yn atal datblygiadau yn yr ardaloedd sydd fwyaf sensitif i effeithiau amgylcheddol.

## 1.9 Seilwaith a Gwasanaethau

1.9.1 Mae'r Amcanion a'r Polisïau strategol sy'n ymwneud â seilwaith yn gallu cael ystod eang o effeithiau. Yn eu plith mae darparu seilwaith cyfleustodau a thrafnidiaeth yn gallu cael effaith gadarnhaol yn gymunedol ac yn gymdeithasol economaidd trwy ganiatáu datblygiadau mewn ardaloedd lle'r oedd cyfyngiad arnynt gynt neu trwy wella mynediad i wasanaethau ac i sectorau o'r economi a oedd heb eu datblygu'n ddigonol. Ond, gan fod angen rhywfaint o ddatblygu er mwyn eu darparu, fe allai gweithredu'r amcanion hyn arwain at ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd lle na fyddai hynny'n bosibl cynt. Gallai hynny gael effaith amgylcheddol negyddol. Eto, mae'n werth nodi fod yr effeithiau cyffredinol hyn yn debygol o fod yn fychan iawn wrth eu hystyried mewn cyfuniad â'r amcanion a'r polisïau strategol ar dwf a datblygu ar themâu amgylchedd/newid yn yr hinsawdd, gan fod y polisïau yn atal datblygiadau yn yr ardaloedd sydd fwyaf sensitif i effeithiau amgylcheddol.

## 1.10 Effeithiau Cronnus yn ôl Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.10.1 Ystyriwyd yr effeithiau Cronnus yn ôl Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn wedi eu crynhoi isod.

## 1.11 Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau hen a newydd

1.11.1 Mae a wnelo prif effeithiau negyddol y CDLl2 ar amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/yr Asesiad Amgylcheddol Strategol â datblygiadau newydd sy'n anelu at gyflawni twf disgwyliedig y sir. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn mewn lleiafrif ac mae gan y cynllun nifer o bolisïau eraill sydd wedi eu llunio i liniaru'r effeithiau negyddol hyn. Yn arbennig felly, mae nod y Strategaeth o ran cyd-leoli tai, gwaith, gwasanaethau a chyfleusterau wedi ei lunio i leihau'r angen i bobl orfod teithio a dylai hynny arwain at fanteision sylweddol o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er y tybir bod y rhan fwyaf o'r effeithiau ar Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad

Amgylcheddol Strategol yn gadarnhaol, maent yn annhebygol o fod yn sylweddol o ran yr effaith gronnus, oherwydd mae twf wastad yn peri cynnydd yn yr allyriadau. Yn gyffredinol bydd effaith y polisïau ar y newid yn yr hinsawdd yn gadarnhaol.

## 1.12 Sicrhau bod mesurau digonol ar gael i addasu i newid yn yr hinsawdd ac i liniaru'r effeithiau

1.12.1 Er bod Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl yn gryf o blaid Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae effeithiau polisïau'r Cynllun yn gyffredinol yn llai cryf ac ni fydd effeithiau disgwyliedig i'r rhan fwyaf. Fodd bynnag, gan mwyaf mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r polisïau hynny'n berthnasol i'r addasu.

## 1.13 Lleihau'r perygl o lifogydd

1.13.1 Oherwydd y bydd yn rhaid ystyried Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 beth bynnag y bo agweddau polisïau'r CDLl newydd, cyfyngedig yw'r Cynllun o ran ei allu i beri effeithiau negyddol o ran perygl llifogydd. O ganlyniad, ni ddisgwylir y bydd yr un o'r polisïau'n peri effeithiau negyddol i Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae yna ddeddfwriaeth newydd sy'n gofyn i bob datblygiad newydd gynnwys cynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS), a fydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar nodau'r amcan.

## 1.14 Lleihau unrhyw halogiad a diogelu maint ac ansawdd y pridd

1.14.1 Oherwydd natur pob mathau o ddatblygiadau, a nodau'r CDLl2 o ran cyflawni twf disgwyliedig y sir, mae'n anochel y collir pridd ac mae'n anodd lliniaru hyn yn ddigonol. Mae nifer o ddulliau wedi eu rhoi ar waith i leihau'r effaith o ran faint o bridd a gollir a'r dirywiad yn ansawdd y pridd. Fodd bynnag, maent yn annhebygol o wrthbwyso effeithiau negyddol cronnus CDLl2. Felly, mae effeithiau'r cynllun yn gyffredinol yn debygol o fod ychydig yn negyddol.

## 1.15 Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion

1.15.1 Mae a wnelo prif effeithiau negyddol CDLl2 ar amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol â datblygiad newydd sy'n anelu at gyflawni twf disgwyliedig y sir. Fodd bynnag, mae'r effeithiau hyn mewn lleiafrif ac mae gan y Cynllun nifer o bolisïau eraill sydd wedi eu llunio i liniaru'r effeithiau negyddol. Yn arbennig felly, mae nod y Strategaeth a Ffefrir o ran cyd-leoli tai, gwaith, gwasanaeth a chyfleusterau wedi ei lunio i leihau'r angen i bobl orfod teithio, a bydd manteision sylweddol i hynny o ran lleihau llygredd yr aer a achosir gan drafnidiaeth. Er y tybir bod y rhan fwyaf o'r effeithiau ar amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gadarnhaol, maent yn annhebygol o fod yn sylweddol gronnus, oherwydd yn gyffredinol bydd twf wastad yn esgor ar lygredd yn yr aer. Yn gyffredinol mae'n debygol y bydd effeithiau'r polisïau ar ansawdd yr aer yn niwtral.

## 1.16 Lleihau effeithiau niweidiol y defnydd o dir ar faint ac ansawdd adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol

1.16.1 Bydd codi adeiladau newydd yn sicr o beri rhai effeithiau negyddol ar ansawdd y dŵr a'i faint. Fodd bynnag, oherwydd y dylid cyflawni hyn gan ddiogelu a gwella amgylchedd ac adnoddau'r Sir, a'i gwneud yn wydn yn wyneb newid trwy ddatblygu cynaliadwy, gan sicrhau y gall ei seilwaith a'i gwasanaethau gyflawni'r heriau hyn, bydd yr effeithiau'n llai. Mae'r polisïau, yn enwedig DM 22: Diogelu'r Amgylchedd yn Gyffredinol, wedi eu llunio i sicrhau hynny. Yn gronnus mae'r effeithiau negyddol yn annhebygol o fod yn sylweddol, ac oherwydd bod amrywiol fesurau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru neu i atal effeithiau negyddol unrhyw ddatblygiadau newydd, mae'n debygol y bydd effaith gyffredinol CDLl2 ar ansawdd y dŵr a'i faint yn weddol niwtral.

## 1.17 Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol

1.17.1 Ni ddisgwylir y bydd Polisïau Strategol y CDLl yn peri effeithiau negyddol i Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Dylai fod mân effeithiau cadarnhaol i nifer ohonynt.

## 1.18 Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel

1.18.1 Ni ddylai polisïau strategol y CDLl newydd beri effeithiau negyddol i Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, a rhagwelir na fydd y rhan fwyaf yn peri dim effeithiau o gwbl. Mae hynny'n bennaf oherwydd nad yw llawer o'r polisïau'n dylanwadu rhyw lawer ar adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel. Fodd bynnag, bydd y rhai a fydd yn peri mân effeithiau cadarnhaol yn cael dylanwad mawr ar y ffordd y gweithredir y polisïau eraill. O bwys neilltuol y mae'r rhai sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd a dylunio o ansawdd uchel. Felly mae'n bosibl y bydd effaith gyffredinol CDLl2 yn lled gadarnhaol.

## 1.19 Gwerthfawrogi, diogelu a hybu amrywiaeth

1.19.1 Gallai datblygiadau newydd beri effeithiau negyddol i fioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae natur yr effaith yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad y datblygiad. Mae hyn i'w weld yn y ganran uchel o ddatblygiadau nad oes sicrwydd beth fydd eu heffeithiau. Mae a wnelo'r effeithiau negyddol a amlygir yn yr asesiad yn gyfan gwbl â datblygu yn y wlad agored ac ar safle sy'n eithriadau, ond gan fod y datblygiadau y mae'r polisïau hyn yn delio â nhw'n eithaf prin, nid yw hyd yn oed eu heffeithiau cronnus yn debygol o fod yn sylweddol. Hefyd, nid yw datblygu ar safleoedd tir llwyd wastad yn beth da oherwydd mae gwerth uchel i rai o'r safleoedd hynny o ran bioamrywiaeth. Ar y llaw arall, gallai effeithiau rhai polisiau fod yn fanteisiol i fioamrywiaeth. Mae effeithiau cronnus cyffredinol amcanion a pholisïau'r CDLl yn ansicr.

## 1.20 Deall, gwerthfawrogi, diogelu, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, natur unigryw'r ardal leol a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion

1.20.1 Gall datblygiadau newydd beri effeithiau negyddol i'r dirwedd. Fodd bynnag, mae natur yr effaith yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad y datblygiad. Mae hyn i'w weld yn y ganran uchel o ddatblygiadau nad oes sicrwydd beth fydd eu heffeithiau. Mae a wnelo'r effeithiau negyddol a

amlygir yn yr asesiad yn gyfan gwbl â datblygu yn y wlad agored ac ar safle sy’n eithriadau, ond gan fod y datblygiadau y mae’r polisiau hyn yn delio â nhw’n eithaf prin, nid yw hyd yn oed eu heffeithiau cronnus yn debygol o fod yn sylweddol. Hefyd, gallai datblygu amhriodol mewn aneddiadau beri effeithiau negyddol i’r treflun. Mae gan y Cynllun bolisïau sy’n ceisio lliniaru ac atal effeithiau negyddol datblygiadau newydd ar y dirwedd. Mae effeithiau cronnus cyffredinol amcanion a pholisïau’r CDLl yn ansicr.

## 1.21 Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod anghenion y ddemograffeg gyfnewidiol yn cael eu hadlewyrchu a datblygu cymunedau bywiog, diogel a chydlynus

1.21.1 Mae Amcanion a Pholisïau strategol y CDLl newydd yn peri nifer dda o effeithiau cadarnhaol i amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Felly, mae’n debygol y bydd effaith gronnus CDLl2 yn gadarnhaol iawn.

## 1.22 Hybu a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i gynnal cymunedau iach

1.22.1 Dylai’r rhan fwyaf o Amcanion a Pholisïau strategol CDLl2 beri mân effeithiau cadarnhaol i amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Fodd bynnag, yn gronnus nid yw hyn yn debygol o beri effaith gadarnhaol sylweddol oherwydd hwyluso iechyd a lles y mae CDLl2 yn hytrach na dylanwadu ar ddulliau byw pobl yn uniongyrchol.

## 1.23 Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac ecogyfeillgar, a chyfleusterau hamdden ac adloniant ecogyfeillgar yng Ngheredigion

1.23.1 Oherwydd bod twristiaeth yn elfen mor bwysig yn economi Ceredigion, mae wedi ei chynnwys o ran twf yn Strategaeth a Ffefrir CDLl2. Mae’r rhan fwyaf o’r polisïau’n peri effeithiau cadarnhaol i Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn enwedig y rhai sy’n ymwneud yn benodol â thwristiaeth. Mae a wnelo’r unig ansicrwydd ag agwedd CDLl2 at ddatblygu ym mharth yr arfordir oherwydd dylai gyfyngu ar ddatblygu ar arfordir y sir. Ni wyddys sut y bydd hyn yn effeithio ar dwf

twristiaeth. Yn gronnus mae'n debygol y bydd effaith y CDLl ar addysg yn debygol o fod yn gadarnhaol.

**1.24 Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion**

1.24.1 O ganiatáu twf economaidd a thrwy annog datblygu cyfleusterau cymunedol a all ymgorffori swyddogaethau addysgol, mae'r CDLl yn hwyluso cyfleoedd i gadw ac ehangu sgiliau yng Ngheredigion. Yn gronnus mae effaith y CDLl ar addysg yn debygol o fod yn gadarnhaol.

**1.25 Diogelu cymunedau drwy hybu'r defnydd o'r Gymraeg**

1.25.1 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn darparu cyfleoedd i bobl leol fedru cael tai, cyflogaeth a gwasanaethau lleol, sydd hefyd yn darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg aros yn yr ardal. Hefyd, bydd y ffordd y mae'r strategaeth yn canolbwyntio twf ar draws y sir, yn atgyfnerthu rhwydwaith cymunedau Ceredigion a'r iaith Gymraeg. Mae hyn wedi ei fynegi yn y ganran uchel o bolisïau y rhagwelir y byddant yn peri mân effeithiau cadarnhaol i Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Er hynny, ni wyddys yn union beth fydd effaith cynllunio defnyddio tir ar yr iaith Gymraeg. Mae S06 Cynllunio a'r Gymraeg am wneud Ceredigion gyfan yn sensitif yn ieithyddol, sy'n golygu y bydd y CDLl yn cael effeithiau cronnus cadarnhaol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylchedd Strategol.

**1.26 Lleihau'r angen am deithio/trafnidiaeth a hybu dulliau trafnidiaeth fwy cynaliadwy a gwella mynediad at wasanaethau i gymunedau, a gwella cysylltedd er mwyn yr economi**

1.26.1 Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cefnogi Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol trwy ganolbwyntio cyfran helaeth o'r twf yn y canolfannau gwasanaethau trefol a gwledig, yn ogystal â galluogi ychydig o dwf yn yr aneddiadau cysylltiedig mawr a chynaliadwy sydd wedi'u sgrinio'n benodol am eu hygyrchedd i drafnidiaeth weithredol a chyhoeddus. Dylai hyn leihau'r angen i deithio a gwella mynediad at wasanaethau'n gyffredinol. Mae hefyd yn ei gwneud yn fwy dichonol

darparu trafnidiaeth gyhoeddus. Adlewyrchir hyn yn y gyfran gymharol uchel o asesiadau sy'n rhagweld mân effeithiau cadarnhaol. Ni ragwelir effeithiau negyddol, ac mae'r ffaith bod llawer o Amcanion a Pholisïau strategol CDLl2 yn canolbwyntio ar leihau pellteroedd teithio'n awgrymu y bydd effeithiau cronnus CDLl2 ar Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gadarnhaol.

## 1.27 Annog economi fywiog ac amrywiol

1.27.1 Mae twf economaidd yn elfen allweddol o'r Strategaeth a Ffefrir, ac adlewyrchir hyn yn y ganran uchel o'r polisïau strategol sydd wedi eu hasesu'n rhai a fydd yn peri mân effeithiau neu effeithiau sylweddol cadarnhaol ar nodau economaidd y sir. Oherwydd na ragwelir effeithiau negyddol, a'r graddau y mae'r Strategaeth a Ffefrir a'i pholisïau strategol yn cefnogi Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae'n debygol y bydd effaith gronnus CDLl2 yn gadarnhaol.

## 1.28 Casgliadau

1.28.1 Er y gallai effeithiau cronnus amcanion a pholisïau strategol y CDLl newydd ynglŷn â thwf, datblygu a darparu seilwaith gael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, wrth ystyried lefel y twf a ragamcanir ac effeithiau lliniarol polisïau strategol eraill CDLl2, mae'r effaith honno'n debygol o fod yn fychan. Oherwydd y ffordd y dosberthir twf y mae'n debygol y bydd yr amcanion a'r polisïau strategol ynglŷn â'r amgylchedd yn debygol o gyfyngu twf yn yr ardaloedd o'r gwerth amgylcheddol mwyaf, ac mewn lleoliadau y gellir eu hystyried yn safleoedd eithriadau. Gan hynny, mae unrhyw effeithiau cronnus negyddol ar amcanion cymdeithasol economaidd y sir hefyd yn debygol o fod yn fychan.

## 1.29 Anawsterau a Gafwyd wrth Asesu Effeithiau'r CDLl

1.29.1 Cafwyd anhawster wrth gynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol mewn perthynas â natur strategol y Strategaeth a Ffefrir, sy'n ei gwneud hi'n anodd nodi union natur effeithiau Amcanion a Pholisïau Strategol y CDLl. Felly, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch canlyniadau'r asesiadau. Bydd polisïau manwl y CDLl2 wedi'i

adneuo yn helpu i egluro llawer o’r effeithiau posibl hyn, a bydd asesiad manylach yn bosibl drwy’r Adroddiad o’r Arfarniad o Gynaliadwyedd a gyhoeddir gyda’r CDLl2 wedi’i Adneuo.

## Gweithredu/Monitro

Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud:

> *The Directive requires the significant environmental effects of implementing the plan or programme to be monitored "in order, inter alia, to identify […] unforeseen effects and to be able to undertake remedial action" (Article 10(1)). Responsible Authorities may already monitor implementation of plans or programmes against their objectives or targets. Some of these may be environmental, but this will not necessarily be enough to satisfy the Directive.*
>
> (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005)

### 1.30 Monitro Effeithiau'r Cynllun

1.30.1 Un o ofynion y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yw bod yr effeithiau cynaliadwyedd sylweddol a fydd yn deillio o'r Cynllun yn cael eu monitro. Bydd monitro cynaliadwyedd yn rhan o fframwaith monitro'r Cynllun ei hun.

1.30.2 Dylid monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd am y rhesymau canlynol:

a. er mwyn dynodi unrhyw effeithiau niweidiol nas rhagwelwyd fel y gellir cymryd camau adferol priodol.
b. nodi a oedd rhagamcanion effeithiau cynaliadwyedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gywir;
c. nodi a yw'r cynllun yn cyfrannu at gyflawni amcanion a thargedau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd;
d. nodi a yw'r mesurau lliniaru'n perfformio cystal â'r disgwyl;
e. nodi a yw unrhyw effeithiau negyddol yn digwydd o fewn terfynau derbyniol yntau a oes angen gweithredu adferol; a
f. llenwi unrhyw fylchau yng ngwybodaeth sylfaenol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd lle bo hynny'n berthnasol ac yn ymarferol bosibl.

1.30.3 Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i ddatblygu fframwaith monitro oherwydd nid yw effeithiau gweithredu CDLl2 yn glir. Gwneir hyn yn ystod y cyfnod Adneuo yn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd ac fe'i gwneir yn derfynol pan gaiff y cynllun ei fabwysiadu. Mae fframwaith monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig ar y dangosyddion a ddynodwyd i gynnal yr Amcanion Cynaliadwyedd yr aseswyd CDLl2 yn eu herbyn. Diben hynny yw deall i ba raddau y mae'r amcanion hynny'n cael eu cyflawni. Ceir rhestr o ddangosyddion posibl Atodiad 1 ochr yn ochr â'r amcanion ac ystyriaethau cynaliadwyedd. Ni fydd angen monitro pob un o'r dangosyddion, dim ond y rhai sydd fwyaf priodol ar gyfer monitro unrhyw effeithiau sylweddol sydd wedi cael eu dynodi yn ystod y prosesau asesu. Gan hynny bydd y rhestr helaeth sydd yn Atodiad 1 yn lleihau'n sylweddol pan fydd y fframwaith monitro terfynol yn cael ei ddatblygu ac yn cael ei gyhoeddi yn Natganiad Mabwysiadu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Bydd Fframwaith Monitro cyfredol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer CDLl1 yn cael ei adolygu'n sylweddol a bydd unrhyw fonitro defnyddiol a hawdd i'w gasglu yn cael ei ddwyn ymlaen i CDLl2. Ond bydd dangosyddion yn cael eu diwygio os yw'r gwaith monitro wedi bod yn anodd neu'n anfuddiol.

Y Camau Nesaf

1.30.4 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhestru camau nesaf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd /Asesiad Amgylcheddol Strategol. Sef:

- Cyfnod D: Ymgynghori gyda'r cyhoedd a chyrff statudol; a
- Cyfnod E: Monitro effeithiau'r cynllun ar yr amgylchedd/ cynaliadwyedd.

1.30.5 Disgrifir y camau hyn isod.

**1.31 Cam D: Ymgynghoriad gyda'r Cyhoedd a Chyrff Statudol**

Beth mae canllawiau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei ddweud...

*The Environmental Report must be made available at the same time as the draft plan or programme, as an integral part of the consultation process, and the relationship between the two documents clearly indicated.*

*Publication of proposals and consultation on them are already established practice for many plans and programmes, and are in many cases legal requirements. The timing of consultation is however also important. Responsible Authorities must ensure that the public and the Consultation Bodies are given "an early and effective opportunity within appropriate time frames to express their opinion". Chapter 3 above provides more detailed guidance on consulting the Consultation Bodies and the public as part of SEA.*

(Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005)

1.31.1 Mae Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gosod gofynion penodol i ymgynghori gyda'r Cyrff Amgylcheddol Statudol, gyda'r cyhoedd a chyrff eraill sydd â diddordeb (gallai hynny gynnwys cyrff anllywodraethol a grwpiau cymunedol er enghraifft). Bydd yr Arfarniad o

Gynaliadwyedd/Adroddiad Amgylcheddol ar gael i'r holl gyrff hyn fel eu bod yn gallu darparu ymateb i gynnwys yr adroddiad. Rhoddir ystyriaeth i'r amseroedd ymateb a restrir yn y Gwasanaethau a Safonau ar gyfer Awdurdodau Cyfrifol yng Nghymru ar gyfer Cyrff Ymgynghorol yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol fel bod yr holl gyrff statudol yn cael cyfle effeithiol i gyflwyno sylwadau.

1.31.2 Bydd y Crynodeb Anhechnegol o'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol yn cael ei ddefnyddio fel y prif ddull o gyfathrebu prif ganfyddiadau'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.31.3 Bydd copïau o'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol a'i Atodiadau ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion: www.ceredigion.gov.uk.

**1.32 Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

1.32.1 Os ydych chi am gyflwyno sylwadau ynglŷn ag Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol y Cynllun Datblygu Lleol neu''r Crynodeb Annhechnegol, anfonwch eich safbwyntiau trwy e-bost neu'n ysgrifenedig i:

Polisi Cynllunio
Economi ac Adfywio
Neuadd y Sir
Stryd y Farchnad
ABERAERON
Ceredigion
SA46 0AT

Ffôn: 01545 572123
E-bost: ldp@ceredigion.gov.uk

1.32.2 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd y sylwadau a dderbynnir ynglŷn â'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol yn cael ei ystyried yn y CDLl adneuo. Bydd polisïau manwl y CDLl Adneuo ac unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hasesu ac adroddir amdanynt mewn Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd.

## 1.33 Mabwysiadu'r Cynllun

1.33.1 Bydd Datganiad Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei gyhoeddi unwaith bydd Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu CDLl2. Diben y Datganiad yw disgrifio sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hintegreiddio yn y cynllun; sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd; sut y rhoddwyd ystyriaeth i bob barn a fynegwyd mewn perthynas â'r ymgynghoriadau ynglŷn â'r cynllun a'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd; y rhesymau am ddewis y cynllun fel y'i mabwysiadwyd yn wyneb y dewisiadau amgen rhesymol eraill y deliwyd â hwy; a'r mesurau a gymerir i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r CDLl.

## 1.34 Cam E: Monitro effeithiau sylweddol y cynllun

1.34.1 Mae'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cynnwys gofyniad i'r cyngor fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r cynlluniau a'r rhaglenni er mwyn, rhwng popeth, dynodi yn gynnar unrhyw effeithiau negyddol, a gallu gweithredu i gymryd camau adferol priodol (Erthygl 10 (1)).

1.34.2 Bydd datblygu strategaeth fonitro, fersiwn wedi'i mireinio o un CDLl1, yn ei gwneud yn bosibl i ni fesur effeithiau gwirioneddol y CDLl yn erbyn yr effeithiau a ragfynegwyd. Trwy hynny gellir dynodi unrhyw broblemau sylweddol a delio gyda hwy dros gyfnod, gellir hefyd casglu gwybodaeth sylfaenol amgylcheddol ac elfennau ehangach o gynaliadwyedd i'w defnyddio yng nghynlluniau'r dyfodol. Rhagwelir y bydd anawsterau mewn penderfynu ar y berthynas rhwng y CDLl a thueddiadau yn y dangosyddion sy'n cael eu monitro, gan na fydd bob amser yn bosibl priodoli unrhyw newidiadau yn uniongyrchol i'r CDLl a'i weithredoedd. Bydd amrywiaeth eang o weithgareddau eraill yn effeithio ar y tueddiadau mewn llawer o ddangosyddion. Gan hynny bydd yn bwysig dewis y dangosyddion y mae'r CDLl yn dylanwadu fwyaf arnynt. Ond mae cyfle i ddefnyddio ac integreiddio gwaith monitro at ddibenion eraill a bydd hynny'n helpu i gynyddu'r sylfaen gyffredinol o dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau cynllunio eraill yng Ngheredigion ac yng Nghymru gyfan.

1.34.3 Cytunir ar y system a'r trefniadau monitro arfaethedig gyda rhanddeiliaid allweddol o safbwynt eu cyfrifoldebau monitro ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a sefydlu rhaglen ar gyfer monitro gan ystyried sut y bydd hynny yn ffitio i adolygiadau o Gynllun Gofodol Cymru yn y dyfodol.

## Cyfeiriadau


| Awdur a Dyddiad | Teitl ac yn y blaen |
|---|---|
| **Cyngor Sir Ceredigion, 2010** | Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol Adroddiad Cwmpasu |
| **Llywodraeth EM, 2004** | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004** | Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 |
| **Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019** | Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 |
| **Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Gogledd Iwerddon 2005** | A Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol |
| **Royal Town Planning Institute, 2018** | Strategic Environmental Assessment. Improving the effectiveness and efficiency of SEA/SA for land use plans. |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015** | Canllawiau Statudol ar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015** | Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015** | Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2il Argraffiad |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015** | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2016** | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |